**Agenda Eitem: 2(a)**

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG DROS ADDYSG GREFYDDOL (SACRE)

Cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog dros Addysg Grefyddol (SACRE) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ffordd Nant Hall, Prestatyn dydd Mercher 31 Ionawr 2006 am 2.00p.m.

## PRESENNOL

### Yn cynrychioli Cyngor Sir Dinbych

Cynghorydd C.L. Hughes.

### Yn cynrychioli Cyd Bwyllgor Trafod Telerau Athrawon Sir Ddinbych

M.B. Lloyd (Cadeirydd), M. Bradshaw a L. Linaker

### Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

T. Bryer, H. Ellis, B.W. Evans, S. Harris a M. Hatch

## HEFYD YN BRESENNOL

I.R. Miller (Prif Weithredwr), Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (A.G.) (G. Craigen), Uwch Swyddog Addysg (Cynradd) (G. Luke Jones) a Swyddog Gweinyddu (W.J. Harness) ynghyd â R. Ellis (Ysgol Gynradd y Santes Ffraid, Dinbych).

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Cynghorwyr G.C. Evans, H. Evans, M.M. Jones, N. Hugh-Jones a G.J. Pickering ynghyd â Mrs. I. Barros-Curtis a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu gydol Oes.

### MYFYRDOD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrdod tawel.

### CROESO

Estynnodd y Cadeirydd groeso i –

Mrs. B.W. Evans (cynrychiolydd Undeb Annibynwyr Cymru)
Ms. L. Linaker (cynrychiolydd Penaethiaid Ysgolion Babanod)
Mr. I.R. Miller – Prif Weithredwr Sir Ddinbych – yn mynychu ar wahoddiad y Pwyllgor
Ms. Rhian Ellis - yn mynychu i annerch y Pwyllgor am ddarparu a chyflwyno AG yn Ysgol Gynradd Sant Ffraid, Dinbych
Mr. C. Halliday, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau – yn mynychu fel arsyllwr.

**1 MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys i'r Pwyllgor ei ystyried.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2006 (dosbarthwyd ynghynt) fel y'u cymeradwy-wyd gan y Cyngor Sir ar 23 Ionawr 2007.

**Materion yn Codi –**

**Tudalen 3 - Eitem Rhif 4 - Drafft o Adroddiad Blynyddol 2005/06** - atgoffodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau fod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i gymeradwyo yng nghyfarfod blaenorol SACRE a'i fod erbyn hyn wedi'i argraffu a'i ddosbarthu yn ôl y gofyn. Cyflwynwyd copïau i'r aelodau oedd yn bresennol.

**Tudalen 6 - Eitem Rhif 7 - Prifysgol Hope: ITT - Adran AG** - cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG at y penderfyniadau a wnaed ynglŷn â'r eitem hon. Yn dilyn ymweliad aelodau SACRE ym mis Hydref 2006, dywedodd fod Prifysgol Hope wedi'i gwahodd i annerch aelodau ar AG a TG mewn cyd gyfarfod o'r tri SACRES i'w gynnal ar 9 Mawrth 2007. Yn y cyfarfod, ceir cyflwyniad hefyd gan Denize Morris, Swyddog DELLS ar Adolygiad y Cwricwlwm (AG). Dywedodd y byddai holiaduron yn cael eu hanfon allan yn fuan i gael ymateb oddi wrth yr ysgolion hynny oedd wedi derbyn myfyrwyr o Brifysgol Hope. Mae ymweliad wedi'i drefnu â Phrifysgol Bangor a bydd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn adrodd yn ôl arno i gyfarfod nesaf SACRE i'w gynnal ym mis Gorffennaf 2007.

Hefyd, hysbysodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau ei fod wedi bod yn trafod gydag AALI Sir y Fflint am y gwasanaeth mewnrwyd y gallan nhw ei gynnal. Byddai athrawon AG Sir Ddinbych a Chonwy'n gallu cael mynediad hefyd er mwyn cefnogi ei gilydd. Byddai gwybodaeth berthnasol ar gael i'r tri AALI drwy'r gwasanaeth hwn er mwyn iddyn nhw gael mynediad iddo a'i lawr lwytho. Ychwanegodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod ganddo gyfarfod arall ddydd Gwener yr wythnos honno ac y byddai'n adrodd yn ôl arno ymhellach. Mewn ymateb i'r Cadeirydd, dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod y trafodaethau wedi ystyried 'rhwydwaith cynnal' nid yn unig ar gyfer ANGau ond hefyd i athrawon AG.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion cyfarfod SACRE a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2006.*

**3 CYFLWYNIAD - ADDYSG GREFYDDOL YN YSGOL GYNRADD SANTES FFRAID, DINBYCH**

Cyflwynodd y Cadeirydd Mrs Rhian Ellis (athrawes AG yn adran uwchradd Ysgol Santes Ffraid) a'i chroesawu i'r cyfarfod. Roedd yn bresennol i roi cyflwyniad ar ddarparu a chyflwyno Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol.

Wedyn, rhoddodd Mrs. Rhian Ellis drosolwg o'r modd y mae AG yn cael ei gyflwyno yn Santes Ffraid. Y prif bwyntiau oedd –

- Ar hyn o bryd, mae tua 330 o ddisgyblion yn yr ysgol uwchradd. Mae'r disgyblion rhwng 11 ac 16 oed yn ferched i gyd gyda bechgyn a merched yn mynychu yn y 6ed dosbarth.

- Atgoffwyd disgyblion yn aml o bwysigrwydd gofalu am ei gilydd o fewn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Roedd gan bob dosbarth y cyfle i ddewis elusen ei ddosbarth ac i godi arian ar ei gyfer yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, byddai pennaeth y sefydliad hwnnw'n derbyn siec ac yn rhoi sgwrs i'r disgyblion.

- Mae ethos Pabyddol i'r ysgol ac mae'n dathlu'r offeren yn rheolaidd, fel arfer gyda mynachod Ffransisgaidd Eglwys Dewi Sant, Pantasaff yn bresennol.

- Roedd 1 Chwefror yn ddiwrnod arbennig i'r ysgol gan ei fod yn ddiwrnod y Santes Ffraid. Ar y diwrnod hwnnw, mae'r disgyblion a'r staff fel arfer yn dathlu'r offeren gyda phob un yn cynnau cannwyll arbennig i gynrychioli'r gorffennol a'r dyfodol. Roedd eleni'n ddau can mlwyddiant sefydlu'r ysgol gan y Chwiorydd Ffraid. Pythefnos yn ôl, roedd un o'r Chwiorydd wedi teithio o Iwerddon i roi sgwrs i ddisgyblion ysgol y Santes Ffraid ar gefndir crefyddol yr ysgol a'r hyn yr oedd yn ei olygu i fod yn rhan o gymuned yr ysgol.

- Mewn gwrthgyferbyniad i addoli ffurfiol, paratowyd gwasanaethau gan y disgyblion eu hunain bob bore dydd Gwener. Roedd y gwasanaethau hynny'n defnyddio cerddoriaeth, drama a dawns i gyfleu gwersi crefyddol a moesol.

- Mae disgyblion CA3 yn cael gwersi AG am awr a hanner bob wythnos. Mae Mrs Rhian Evans yn cael cymorth dwy aelod fedrus o'r staff - Kate Harnsworth a Michelle Nicklin. Mae Michelle wedi cyflwyno rhywfaint o gerddoriaeth gorawl hwyliog o'r ffilm 'Sister Act' i mewn i'r gwersi ac mae Kate wedi rhoi cyfle i'r disgyblion bobi 'cacen feibl'. Gan mai uno'r cynhwysion oedd allwedd y pobi, bu'n rhaid i'r disgyblion gael hyd i gyfeiriadau Beiblaidd fel cynhwysion i'r gacen.

- Roedd y Gymdeithas Rieni wedi cyflwyno 30 Beibl newydd yn ddiweddar.

- Ar hyn o bryd, mae Blwyddyn 7 yn gweithio ar lunio taflen ar y Wlad Sanctaidd.

- Mae Blwyddyn 9 yn canolbwyntio ar Martin Luther King.

- Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae pob disgybl yn sefyll arholiad TGAU gan fod AG yn bwnc craidd yn ysgol y Santes Ffraid. Hefyd, mae disgyblion yn cael dilyn cwrs byr ar ddiwedd blwyddyn 10 ac yna'n eistedd cwrs byr pellach er mwyn sicrhau y byddan nhw'n gallu cael tystysgrif cwrs llawn ar ddiwedd blwyddyn 11.

- Mae disgyblion gydag ystod o allu'n mynychu'r ysgol gan gynnwys rhai ag anghenion arbennig.

- Mae AG yn gwneud cyfraniad pwysig i elfen ysbrydol a moesol yr ysgol a chyfraniad sylweddol i ddatblygiad academaidd y disgyblion. Roedd canlyniadau AG fel arfer y canlyniadau gorau yn yr ysgol. Dwy flynedd yn ôl, roedd y nifer o ddisgyblion oedd wedi ennill A* yn y pwnc yn record. O'r 49 disgybl, roedd 21 wedi ennill A*.

- Roedd AG hefyd yn denu nifer mawr o ddisgyblion ar lefel AS ac A. Roedd nifer o'r disgyblion lefel A wedi mynd ymlaen i astudio'r pwnc mewn prifysgol neu i astudio'r gyfraith. Roedd un disgybl oedd wedi ennill gradd A mewn AG y llynedd wedi'i derbyn i Rydychen. Roedd rhai disgyblion lefel A, mewn ffaith, wedi ennill 100% mewn rhai o'u modiwlau AG.

Diweddodd Mrs. Ellis drwy fynegi ei diolch i bawb oedd wedi bod yn gefnogol i wneud AG yr hyn yw heddiw.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, dywedodd Mrs Ellis fod meini prawf gwahanol ar gyfer y disgyblion Pabyddol oedd yn cael blaenoriaeth wrth gael eu derbyn i adran uwchradd yr ysgol. Fodd bynnag, roedd disgyblion o enwadau eraill hefyd yn cael eu derbyn.

Hefyd, dywedodd Mrs. Ellis fod yn rhaid i ddisgyblion wrth gael eu derbyn i'r ysgol gytuno i gydymffurfio â gofynion yr ysgol. Un o'r gofynion hynny oedd mynychu offeren.

Yna, diolchodd y Cadeirydd i Mrs. Rhian Ellis am ei chyflwyniad addysgiadol a diddorol oedd wedi rhoi cipolwg i'r aelodau i'r gwaith rhagorol oedd yn cael ei wneud yn ysgol y Santes Ffraid wrth gyflwyno AG. Ychwanegodd y byddai llythyr o ddiolch yn cael ei anfon at y pennaeth acat swyddogion yr ysgol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r cyflwyniad ar AG yn Ysgol y Santes Ffraid, Dinbych a bod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon at Bennaeth a Chorff Llywodraethu'r ysgol ar ran SACRE.*

## 4 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGON ESTYN

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) oedd yn gofyn i'r aelodau ddadansoddi'r sylwadau a wnaed mewn Adroddiadau Arolygon diweddar ar ysgolion yn yr AALl ac i nodi'r agweddau cadarnhaol a negyddol yn narpariaeth SMSC ac AG lle'r oedd yn rhan o'r Arolwg.

Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd mai'r tair ysgol oedd wedi cael arolwg oedd y Bendigaid Edward Jones R.C., Y Rhyl, Ysgol Llywelyn, Y Rhyl ac Ysgol Clocaenog.

Cyflwynwyd adroddiad pellach ar Ysgol Mair R.C., Y Rhyl ar  y diwrnod. Eglurodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y dylid bod wedi ystyried yr adroddiad hwn yng nghyfarfod diwethaf SACRE fel rhan o'r rhaglen fonitro a gynhaliwyd gan SACRE ar ysgolion consortiwm y Bendigaid Edward Jones. Fodd bynnag, ar y pryd, roedd trafodaethau'n parhau ynglŷn â rôl pwy oedd cefnogi AG mewn ysgolion Pabyddol. Roedd yr Esgobaeth wedi gwneud penderfyniad erbyn hyn ac, o hyn ymlaen, ni

ddylai'r awdurdodau lleol gyflawni'r rôl hon. Ychwanegodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ei fod wedi derbyn yr adroddiad monitro ar Ysgol Mair R.C. ynghynt yr wythnos honno a theimlai y byddai aelodau'n dymuno ei ystyried.

Wedyn, cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG trosolwg o'r math o arolygon ysgolion oedd wedi'u cynnal, i'r Aelodau.

Mor bell ag yr oedd Ysgol y Bendigaid Edward Jones R.C., Y Rhyl yn y cwestiwn, mater pwysig yn dilyn yr arolwg oedd gosod yr ysgol 'yn destun mesurau arbennig'.

O'r 62 sylw cadarnhaol a wnaed o safbwynt datblygu SMSC yn y tair ysgol, roedd 24 o'r rhain wedi bod am Ysgol y Bendigaid Edward Jones R.C.

Cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG at y ffaith fod rhai nodweddion anghyffredin wedi'u hamlygu yn y prif adroddiad. Cyfeiriwyd at Ysgol Clocaenog o safbwynt gwaith cyngor yr ysgol a chafwyd cyfeiriadau at rai o nodweddion ysbrydol a moesol yn Ysgol Llywelyn.

Mor bell ag yr oedd y sylwadau negyddol a wnaed gan yr Arolygwyr, roedd 15 wedi bod am Ysgol y Bendigaid Edward Jones R.C. ac 1 am Ysgol Llywelyn. O ganlyniad i'r ffaith bod Ysgol y Bendigaid Edward Jones R.C. wedi'i rhoi 'yn destun mesurau arbennig', mae nifer o weithgareddau'n digwydd ar hyn o bryd er mwyn delio â'r materion a nodwyd. Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wrth yr aelodau fod cyfarfod yn cael ei gynnal ar hyn o bryd rhwng yr AALl a swyddogion yr Esgobaeth am faterion yn ymwneud â datblygu AG ac SMSC yn yr ysgol. Ni fyddai'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn ymwneud â hyn bellach o ganlyniad i benderfyniad yr Esgobaeth.

Mor bell ag yr oedd AG yn y cwestiwn, cafwyd 17 sylw cadarnhaol – roedd 5 o'r rhain yn ymwneud ag Ysgol y Bendigaid Edward Jones R.C., 11 ag Ysgol Clocaenog ac 1 ag Ysgol Llywelyn.

Ar y llaw arall, cafwyd 26 sylw negyddol, pob un yn ymwneud ag Ysgol y Bendigaid Edward Jones R.C.

Cyn derbyn yr adroddiad ar arolwg ar Ysgol Mair R.C., Y Rhyl, diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG nid yn unig am y gwaith a wnaed ar yr adroddiad ond hefyd am yr hyn a wnaed gydag ysgolion yr Awdurdod.

Cytunodd yr Aelodau y dylid anfon llythyrau i longyfarch Ysgol Llywelyn, Y Rhyl ac Ysgol Clocaenog.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan y Prif Weithredwr, cytunodd yr aelodau y dylid anfon llythyr o anogaeth at Ysgol y Bendigaid Edward Jones R.C. oherwydd bod yr ysgol wedi'i rhoi 'yn destun mesurau arbennig' yn dilyn ei harolwg, yn hytrach nag anfon y llythyr arferol i'w llongyfarch.

Atgoffodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau fod Ysgol Mair yn un o'r ysgolion oedd yn 'bwydo' Ysgol y Bendigaid Edward Jones R.C.. Paratowyd yr adroddiad gan yr Esgobaeth ac fel arfer byddai wedi ffurfio rhan o waith monitro'r

Pwyllgor o'r consortiwm. Byddai canlyniadau'r adroddiad monitro wedi'u cynnwys yn yr ystadegau o fewn Adroddiad Blynyddol SACRE 2007. Dywedodd cynrychiolydd yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig wrth yr aelodau ei fod wedi bod yn rhan o'r tîm arolwg ar Ysgol Mair ym 1997 a dywedodd nad oedd yn gallu gweld bod unrhyw wahaniaeth yn yr ysgol ddeng mlynedd yn ddiweddarach.

Gan nad oedd gan yr Awdurdod Lleol unrhyw gysylltiadau ymgynghorol bellach gydag ysgolion Pabyddol, awgrymodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y byddai'n briodol i anfon llythyr at Ysgol Mair, gyda chopi i'r Esgobaeth, yn dweud bod SACRE wedi derbyn yr adroddiad ar yr arolwg, wedi nodi'r nodweddion da yn yr ysgol ac yn eu hannog yn y gwaith roedden nhw'n ei wneud i ddatblygu pethau.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) derbyn a nodi'r dadansoddiad o Adroddiadau'r Arolwg;*

*(b) anfon llythyrau at Ysgol Llywelyn ac Ysgol Clocaenog, yn eu llongyfarch am y nodweddion da a nodwyd yn yr arolwg ac yn cynnig gwasanaethau'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG neu swyddogion eraill yr AALl wrth ddelio â diffygion neu faterion allweddol;*

*(c) anfon llythyr o anogaeth at Ysgol y Bendigaid Edward Jones R.C. mewn ymateb i'r ffaith bod yr ysgol wedi'i rhoi 'yn destun mesurau arbennig' yn dilyn yr arolwg;*

*(ch) anfon llythyr at Ysgol Mair, gyda chopi i'r Esgobaeth, yn eu hysbysu bod SACRE wedi derbyn adroddiad yr arolwg, wedi nodi'r nodweddion da yn yr ysgol ac yn eu hannog yn y gwaith roedden nhw'n ei wneud i ddatblygu pethau; a*

*(d) gofyn i'r AALl ddosbarthu'r llythyrau uchod.*

## 5 CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2006

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) oedd yn gofyn i'r aelodau am ddadansoddiad o ganlyniadau'r gwahanol arholiadau, eu hystyriaeth o'r oblygiadau ac arwydd o unrhyw gefnogaeth neu gamau a allai fod yn angenrheidiol.

Yna, roedd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn mynd drwy'r canlyniadau'n fanwl ac yn adrodd yn ôl ar lafar ar gymariaethau rhwng canlyniadau arholiadau 2006 a 2005. Cyfeiriodd yn benodol at y pwyntiau canlynol -

- Canlyniadau TGAU Pawb – Astudiaethau Crefyddol: Cwrs Llawn 2006 – yn gyffredinol gwelwyd gwelliant o 7% ond roedd y canlyniadau 3% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol i'r rhai oedd wedi ennill graddau A* - C;

- Canlyniadau TGAU Bechgyn – Astudiaethau Crefyddol: Cwrs Llawn 2006 – gwelwyd gwelliant o 10.8% yn gyffredinol gyda thair ysgol yn cael canlyniadau

oedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol i'r rhai oedd wedi ennill graddau A* - C;

- Canlyniadau TGAU Merched– Astudiaethau Crefyddol: Cwrs Llawn 2006 – gwelwyd gwelliant cyffredinol o 5.6% ar ganlyniadau 2005 gyda dwy ysgol yn cael canlyniadau oedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol i'r rhai oedd wedi ennill graddau A* - C;

- Canlyniadau TGAU Pawb – Astudiaethau Crefyddol: Cwrs Byr 2006 – yn gyffredinol gwelwyd gostyngiad o 6.2% ar ganlyniadau 2005 gyda dwy ysgol yn unig yn cael canlyniadau oedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol i'r rhai oedd wedi ennill graddau A* - C;

- Canlyniadau TGAU Bechgyn – Astudiaethau Crefyddol: Cwrs Byr 2006 – gwelwyd gostyngiad cyffredinol o 5.8% ar ganlyniadau 2005 gydag un ysgol yn unig yn cael canlyniadau oedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol i'r rhai oedd wedi ennill graddau A* - C;

- Canlyniadau TGAU Merched – Astudiaethau Crefyddol: Cwrs Byr 2006 – hefyd gwelwyd gostyngiad yng nghanlyniadau A*-C 2006 y merched, y tro hwn 11.6%. Roedd tair ysgol wedi cael canlyniadau oedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Astudiaethau Crefyddol TGAU – Lefel Uwch – Pawb – gwelwyd gostyngiad o 5.2% yn gyffredinol ar ganlyniadau 2005. Un ysgol yn unig oedd wedi cael canlyniadau'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

O safbwynt y canlyniadau uchod, atgoffodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau mai nifer bychan o ddisgyblion oedd yn sefyll yr arholiadau hynny yn rhai o ysgolion yr Awdurdod mewn rhai achosion.

- Astudiaethau Crefyddol – Lefel Mynediad (COEA cynt) – Pawb – tynnodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG sylw'r aelodau at gamgymeriad yn y tabl hwn lle dylai canlyniadau'r Rhyl fod, mewn gwirionedd, ar gyfer Ysgol y Bendigaid Edward Jones R.C., h.y. 2006 A* - C = 92.9%, 2005 A* - C = 84%, Gwahaniaeth = +8.9%, +/- Cenedlaethol 2006 = -2.0%.

Wrth gyfeirio at ganlyniadau'r 5 mlynedd, y gymhariaeth â'r cyfartaledd cenedlaethol, y tabl, awgrymodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y dylid anfon llythyrau llongyfarch at yr ysgolion hynny lle'r oedd y canlyniadau wedi gwella ar y flwyddyn flaenorol ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (Prestatyn a'r Santes Ffraid).

Awgrymodd hefyd y dylid anfon llythyrau hefyd oddi wrth SACRE at yr ysgolion hynny oedd wedi tanberfformio ac a oedd o dan y cyfartaledd cenedlaethol am fwy na 3-4 blynedd. Dylid gofyn iddyn nhw pa gamau roedden nhw'n eu cymryd a chynnig cymorth iddyn nhw i'w helpu i weithredu'r gwelliannau hynny (Dinas Bran - Cwrs Llawn, Cwrs Byr a lefel A, Brynhyfryd - lefel A a'r Rhyl - Cwrs Byr.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod canlyniadau'r TGAU yn galonogol a'u bod wedi dangos rhywfaint o welliannau cyffredinol. Ychwanegodd ei bod yn bwysig amlygu a

chymeradwyo perfformiad Ysgol Uwchradd Prestatyn o gofio'r nifer uchel o ymgeiswyr oedd wedi cael canlyniadau da, llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
Yn dilyn hyn, mynegodd y Cadeirydd ei longyfarchion i'r disgyblion a'r staff am y gwaith rhagorol a wnaed i sicrhau'r canlyniadau uchod.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) derbyn y data ystadegol a'r crynodeb;*

*(b) anfon llythyrau llongyfarch at yr ysgolion lle'r oedd y canlyniadau wedi gwella ar y llynedd a lle'r oedden nhw'n uwch na'r Cyfartaleddau Cenedlaethol;*

*(c) anfon llythyrau at yr ysgolion hynny lle'r oedd y canlyniadau'n is na'r Cyfartaleddau Cenedlaethol am dair blynedd neu fwy er mwyn gofyn am gamau oedd yn cael eu cymryd ac i gynnig gwasanaethau'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG i sicrhau'r gwelliannau; a*

*(ch) gofyn i'r AALl ddosbarthu'r llythyrau uchod.*

## 6 WASACRE - (A) ADRODDIAD O'R GYNHADLEDD ARBENNIG

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG Adroddiad ar y Gynhadledd Arbennig (dosbarthwyd ynghynt) a gynhaliwyd yn Ysgol Uwchradd Llandrindod ar 20 Mai 2006. Dywedodd wrth yr aelodau fod hon wedi bod yn gynhadledd ar y cyd rhwng WASACRE (Cymdeithas SACRE Cymru) a DELLS (Adran Dysgu gydol Oes a Sgiliau) i drafod dyfodol Addysg Grefyddol yng Nghymru. Roedd y Gweinidog Addysg a Dysgu gydol Oes wedi cyflwyno araith hynod bwysig a phositif.

Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AC wrth yr aelodau fod cefnogaeth gyffredinol i'r Fframwaith ac i'r cyfeiriad yr oedd Addysg Grefyddol yn ei ddilyn, yn ystod y trafodaethau grŵp ar y diwrnod. Yna, cyfeiriodd at yr argymhellion i WASACRE, SACREs, DELLS ac i'r AALlau y penderfynwyd arnyn nhw ar y diwrnod.

Yna, gofynnodd y Cadeirydd am gymeradwyaeth y Pwyllgor i'r argymhellion a wnaed i SACREs. O gofio'r cais i adolygu cynrychiolaeth grwpiau ffydd ar SACRE, gan fod cymuned o Fwslemiaid yn byw o fewn yr ardal, awgrymwyd bod aelod o'r gymuned honno'n cael gwahoddiad i arsylwi ar gyfarfod o SACRE Sir Ddinbych er mwyn cael cipolwg i waith SACRE. Ar ôl hynny, pe gwelir bod budd i SACRE Sir Ddinbych a'r Mwslemiaid yn deillio o hyn, gellir ymchwilio ymhellach i'r mater o aelodaeth lawn o SACRE.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) derbyn adroddiad y Gynhadledd Arbennig;*

*(b) gweithredu'r argymhellion canlynol a wnaed i SACRE yn y Gynhadledd Arbennig –*

- *i gydweithio gyda SACREs eraill, yn lleol a thrwy WASACRE, i ddatblygu AG dda yng Nghymru ac wrth ymateb i Fframwaith AG a ddatblygwyd gan DELLS*

- *i ymateb i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith newydd ac i rannu eu hymatebion gyda WASACRE*
- *i ofyn i'w AALlau sicrhau digon o arian ar gyfer y diwygiadau i'r Meysydd Llafur Cytunedig yng ngoleuni Fframwaith DELLS a datblygu deunyddiau cefnogi*

- *i ofyn i'w AALlau ariannu cynrychiolydd o'r athrawon i fynychu cyfarfodydd SACRE a chyfarfodydd WASACRE*

- *i adolygu cynrychiolaeth grwpiau ffydd ar SACRE a sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau mewn cymdeithas a natur grefyddol yr ardal a chymdeithas; a*

(c) *Bod aelod o'r gymuned Fwslimaidd, sy'n byw yn ardal yr Awdurdod Lleol, yn cael gwahoddiad i arsylwi ar gyfarfod o SACRE Dinbych er mwyn cael cipolwg o'r gwaith a wneir gan SACRE. Ar ôl hynny, pe gwelir bod budd i SACRE Sir Ddinbych a'r Mwslemiaid yn deillio o hyn, gellir ymchwilio ymhellach i'r mater o aelodaeth lawn o SACRE.*

**(B) WASACRE – COFNODION CYFARFOD Y GYMDEITHAS A GYNHALIWYD AR 17 TACHWEDD 2006**

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei bod hi, y Cynghorydd M.M. Jones a'r Parchedig B.H. Jones wedi mynychu cyfarfod WASACRE a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2006. Yn anffodus, oherwydd amgylchiadau annisgwyl, nid oedden nhw wedi cyrraedd cyn Eitem 7 - Cyflwyniad NAPfRE: prosiect NGfL drwy Arian GTCW. Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod arian wedi'i dderbyn yn Sir Ddinbych, drwy gysylltiadau gyda'r Gymdeithas AG yng Nghymru, i wneud copïau o'r holl ddeunyddiau a ddatblygwyd yn ystod y prosiect. Roedd y deunyddiau wedi'u cyfieithu ac anfonir hwy at yr holl ysgolion ar gryno ddisg yn ddiweddarach y tymor hwn.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor na fyddai hi na'r Cynghorydd M.M. Jones yn gallu mynychu cyfarfod WASACRE yn Hwlffordd ar 23 Mawrth. Mewn ymateb i'w chais am aelodau eraill i fynychu'r cyfarfod yn eu lle, dywedodd Mrs. S. Harris ei bod yn bosibl y byddai hi'n gallu mynychu. Awgrymodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG efallai y byddai'r Parchedig B.H. Jones hefyd yn gallu mynychu. Cytunwyd y byddai'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn cysylltu â Mrs. Harris a'r Parchedig Jones.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *derbyn cofnodion drafft cyfarfod WASACRE a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2006; a*

*(b)* *derbyn sylwadau'r cynrychiolwyr oedd yn mynychu'r cyfarfod hefyd.*

## 7 DELLS: AROLWG CWRICWLWM YSGOLION (A) FFRAMWAITH CAM SYLFAENOL 3 – 7

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ddyfyniad o'r Fframwaith Ymgynghori (dosbarthwyd ynghynt) oedd yn galluogi aelodau i weld y newidiadau sy'n digwydd ac i werthuso eu hymateb o safbwynt darparu AG o fewn y Cam Sylfaenol.
Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG eu bod yn cynnal peilot o'r ddarpariaeth bresennol o'r cwricwlwm AG o fewn y Cam Sylfaenol ar hyn o bryd mewn rhai ysgolion gan gynnwys ysgolion yn Sir Ddinbych. Ychwanegodd fod WASACRE wedi nodi meysydd o fewn y Fframwaith diwygiedig lle nad oedden nhw'n cytuno. Roedden nhw'n teimlo nad oedd cyflenwi'r AG yn unol â'u dymuniad.

Yn dilyn ystyried y dyfyniadau o'r Fframwaith Ymgynghori –

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) derbyn y dyfyniadau o'r Fframwaith Ymgynghori; ac*

*(b) ymateb i'r ymgynghoriad drwy ofyn (i) am i'r adran Credoau a Chwestiynau Pobl gael ei hail gynnwys er mwyn cadarnhau lle AG o fewn yr oed 5-7 (sy'n un o'r gofynion statudol); (ii) am gynnwys hawliad anstatudol ar gyfer plant 3-4 am Gredoau a Chwestiynau Pobl er mwyn rhoi sylfaen i'r ddarpariaeth statudol o oed 5 ymlaen; a (iii) bod y cyfeiriad at Addysg Grefyddol yn yr adran Cefndir yn cael ei gadarnhau a'i gynnwys yn y Meysydd ar gyfer Dysgu a Gwybodaeth a Dealltwriaeth o dudalennau'r Byd ynghyd â chyfeirio at y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG a Meysydd Llafur Cytunedig yn lleol.*

## 8 DELLS: AROLWG CWRICWLWM YSGOLION (B) PARTHED FFRAMWAITH ENGHREIFFTIOL 3 – 19

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y Fframwaith Ymgynghori (dosbarthwyd ynghynt) oedd yn galluogi aelodau i weld y newidiadau sy'n digwydd ac i werthuso eu hymateb o safbwynt darparu AG a'r gofyn statudol i adolygu'r Maes Llafur Cytunedig.

Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wrth yr aelodau fod cyd gyfarfod rhwng SACRE Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Chonwy wedi'i drefnu ar gyfer 9 Mawrth 2007 er mwyn archwilio natur a fformat y newidiadau arfaethedig i'r modd o gyflenwi AG. Ychwanegodd fod Denise Morris o DELLS wedi'i gwahodd i fynychu'r cyd gyfarfod hwn. Pwrpas cynnwys yr eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod heddiw oedd galluogi aelodau i ystyried yn fras y Fframwaith Ymgynghori.

Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG nad oedd yn gweld y byddai'r newidiadau arfaethedig yn y cwricwlwm yn broblem i ysgolion Sir Ddinbych eu mabwysiadu heblaw am ddelio â'r mater o sut y byddai pynciau'n cael eu cyfeirio. Ychwanegodd ei fod yn gobeithio y gellid cael cydsyniad ar draws Cymru ar gyfer mabwysiadu'r ddogfen a pharatoi deunyddiau cefnogi.

I gloi, dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wrth y Pwyllgor y byddai Cyngor Sir Dinbych yn trefnu'r cyd gyfarfod ar 9 Mawrth 2007.

Yna, cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Addysg (Cynradd) (G. Luke Jones) at y gwaith rhagorol yr oedd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn ei wneud yn ysgolion Sir Ddinbych. Ychwanegodd y byddai'r cwricwlwm AG newydd yn cael effaith mawr ar y modd o gyflenwi AG mewn ysgolion a gofynnodd i'r aelodau roi ystyriaeth ddifrifol i'w hymateb i'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol.

Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wrth yr aelodau y byddai ymgynghoriad cenedlaethol hefyd ar y cwricwlwm AG newydd arfaethedig ac mai cynrychiolwyr enwebedig SACRE Sir Ddinbych oedd Mrs. Sylvia Harris a'r Cynghorydd M.M. Jones; byddai DELLS yn dewis enwau o'r rhai a enwebwyd i gynrychioli pob pwyllgor o fewn SACREs.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) derbyn y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol;*

*(b) cefnogi'r cyd gyfarfod SACREs ar 9 Mawrth 2007 er mwyn penderfynu'n derfynol ar yr ymateb i'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol yng ngoleuni ymatebion o ysgolion;*

*(c) cytuno mewn egwyddor i fabwysiadu'r 'Fframwaith' fel y prif sylfaen i'r Maes Llafur Cytunedig diwygiedig AG yn Sir Ddinbych (o'i ddiwygio ar ôl ymgynghori a chael cyngor ac arweiniad gan weithgor a SACREs eraill);*

*(ch) i hysbysu'r penderfyniad hwn i WASACRE; ac*

*(d) i ofyn i'r AALl sefydlu gweithgor o athrawon ac aelodau SACRE i baratoi Maes Llafur Cytunedig diwygiedig (mewn partneriaeth gyda SACREs lleol eraill) i'w gyflwyno i Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ac i roi deunyddiau cefnogol a deongliadol a dogfennau arweiniol (mewn partneriaeth gyda SACREs eraill yng Nghymru).*

Trefnwyd cyfarfod nesaf SACRE Sir Ddinbych ar gyfer 3 Gorffennaf 2007.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.50 p.m.

*********

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 3 Gorffennaf 2007 |
| Eitem ar yr Agenda: | **2(b)** | Adroddiad: | **Adroddiad Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) i ysgolion** |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Anfonwyd arolwg i bob ysgol i werthuso hyfforddiant myfyrwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Addysg Grefyddol.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Darganfod i ba raddau y mae myfyrwyr HCA yn cael eu paratoi'n ddigonol i addysgu Addysg Gorfforol.

*Argymhellion:*

I CYSAG:

I'r AALI:

Agenda Eitem: 2(b)

**Holiadur ar Ymarfer Dysgu - darpariaeth Addysg Grefyddol**
**Ysgolion Cynradd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol: Cafwyd ymateb oddi wrth gyfanswm o 10 Ysgol ar draws 3 Awdurdod | | | |
| Coleg: UNCW Bangor – 8 Ysgolion<br>Newi Wrecsam – 2 Ysgolion | | | |
| Nifer y myfyrwyr yn yr ysgol: | 6 | Nifer y myfyrwyr ym mhob blwyddyn: | 2/3 ar gyfartaledd |

*Atebwch y cwestiynau isod trwy dicio'r golofn briodol*

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Heb gytuno nac anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Mae myfyrwyr yn barod iawn ar gyfer eu lleoliadau. | 1 Ysgol | 8 Ysgolion | 1 Ysgol | | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Bydd hyn yn amrywio lawer rhwng gwahanol fyfyrwyr. Mae rhai'n ardderchog tra bo rhai eraill yn llawer mwy hamddenol.<br>▪ Mae'n dibynnu ar y Flwyddyn / Cwrs a faint fyddant wedi'i gwblhau. | | | | |
| 2. Mae gan fyfyrwyr ymwybyddiaeth dda o AG (yn ogystal â phynciau eraill) | | 6 Ysgolion | 2 Ysgolion | 2 Ysgolion | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Rwyf yn teimlo bod addysg grefyddol yn wan, yn enwedig ar lefel cyfnod allweddol 2. Mae gwybodaeth bersonol yn aml yn wan.<br>▪ Hyfforddai trydedd flwyddyn, ond heb ddysgu addysg grefyddol mewn lleoliad cyn hynny.<br>▪ Ar lefel cyfnod allweddol 1. | | | | |
| 3. Mae myfyrwyr wedi cael eu hyfforddi'n dda mewn technegau dysgu ac addysgu. | 1 Ysgol | 9 Ysgolion | | | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Yr un fath ag ar gyfer pynciau eraill.<br>▪ Bydd athrawon dosbarth da'n gweithredu fel mentoriaid ardderchog. | | | | |
| 4. Mae'n ymddangos bod myfyrwyr yn cael cefnogaeth dda yn ystod eu lleoliad. | 1 Ysgol | 6 Ysgolion | 1 Ysgol | 1 Ysgol | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Mae'r cysylltiadau efo tiwtoriaid yn dda.<br>▪ Cael cefnogaeth dda yn yr ysgol a digon o gyfarwyddyd ac fel arfer bydd y Tiwtor Coleg yn ymweld 2/3 gwaith yn ystod cyfnod o amser.<br>▪ Mae'r gefnogaeth yn yr ysgol yn dda ond llai o ymwneud gan y Coleg dros gyfnod o amser.<br>▪ Oddi wrth athrawon. | | | | |

| | Cytuno’n gryf | Cytuno | Heb gytuno nac anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 5. Mae myfyrwyr yn ymateb yn dda i gyngor a gwerthuso. | 1 Ysgol | 8 Ysgolion | 1 Ysgol | | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Y mwy byddant yn gwrando, y mwy byddant yn datblygu a gwella.<br>▪ Cytuno’n gryf yn gyffredinol, ond ambell unigolyn ddim yn gwneud.<br>▪ Eto mae hyn yn amrywio o fyfyriwr i fyfyriwr ond yn gyffredinol bydd myfyrwyr yn gweithredu ar y cyngor a roir. | | | | |
| 6. Mae myfyrwyr yn fodlon paratoi a darparu gwersi AG pan ofynnir iddynt wneud . | 3 Ysgolion | 6 Ysgolion | 1 Ysgol | | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Eleni fu fy myfyriwr ddim yn dysgu addysg grefyddol, ond mae hyn yn eithriad.<br>▪ Mae angen gryn dipyn mwy o gefnogaeth i gynllunio gwersi addysg grefyddol. | | | | |
| 7. Mae’r coleg yn darparu gwybodaeth dda am ei fyfyrwyr a’u prosiectau. | | 5 Ysgolion | 3 Ysgolion | 2 Ysgolion | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Dim aseiniadau addysg grefyddol penodol ond yn aneglur ar y cyfan. Rydym yn teimlo y dylid cwblhau mwy yn ystod lleoliadau. | | | | |
| 8. Mae’r coleg yn ymweld yn rheolaidd yn ystod lleoliadau. | | 5 Ysgolion | 4 Ysgolion | | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Yn gyffredinol dim ond 1 ymweliad i bob lleoliad. | | | | |
| 9. Mae’r coleg yn gwrando’n dda ar sylwadau a gwerthuso ar fyfyrwyr. | 2 Ysgolion | 8 Ysgolion | | | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Bydd staff y coleg yn gwerthfawrogi cyfraniad yr ysgolion. | | | | |
| 10. Mae’r coleg yn darparu adroddiad yn sgil lleoliadau myfyrwyr. | | 2 Ysgolion | 1 Ysgol | 3 Ysgolion | 3 Ysgolion |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Bydd y tiwtor cyswllt yn cwblhau adroddiadau efo mentoriaid cyn cwblhau’r lleoliad<br>▪ Ddim i’r ysgol<br>▪ Dim byd ffurfiol<br>▪ Bydd yr ysgol yn ysgrifennu adroddiad efo cefnogaeth oddi wrth y Coleg<br>▪ Ni chafodd yr ysgol unrhyw adroddiad yn dilyn lleoliadau myfyrwyr | | | | |

| | |
|---|---|
| 11. Sylwadau eraill.<br><br>*(Defnyddiwch daflen ychwanegol os bydd angen)* | ▪ Yn gyffredinol rwyf wedi gweld bod myfyrwyr Bangor wedi paratoi'n dda. Rwyf wedi dod â chontractau i ben efo sefydliadau addysg bellach eraill gan fy mod yn teimlo bod y myfyrwyr yn wan o ran eu technegau dysgu a'u sgiliau dysgu yn gyffredinol. |

| **Holiadur ar Ymarfer Dysgu – darpariaeth Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd** | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol: Cafwyd ymateb oddi wrth gyfanswm o 7 Ysgol ar draws 3 Awdurdod, yn cynnwys 3 nad oeddent yn rhoi gwybodaeth. | | | |
| Coleg: UCNW Bangor 4 Ysgolion<br>Caer – 1 Ysgol | | | |
| Nifer y myfyrwyr yn yr ysgol: | 4 | Nifer y myfyrwyr ym mhob blwyddyn: | 1/ 2 ar gyfartaledd |

*Atebwch y cwestiynau isod trwy dicio'r golofn briodol*

| | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Heb gytuno nac anghytuno** | **Anghytuno** | **Anghytun o'n gryf** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Mae myfyrwyr yn barod iawn ar gyfer eu lleoliadau. | | 3 Ysgolion | 1 Ysgol | | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Mae'n bosibl fod angen mwy o baratoi ar gyfer cynllunio gwersi, o ran cyflymder a 'gosod fesul talp'<br>▪ Teimlir bod 3 wythnos yn y brifysgol cyn y lleoliad yn ddigonol. Roedd rhai hyfforddeion yn teimlo eu bod wedi cael eu ' bwrw i'r dwfn' ! | | | | |
| 2. Mae gan fyfyrwyr ymwybyddiaeth dda o'r pwnc (AG) | 1 Ysgol | 2 Ysgolion | 1 Ysgol | | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Gwybodaeth dda am Gristnogaeth ond mae angen gwybodaeth fanylach am grefyddau eraill y byd.<br>▪ Oes – fel arfer yn dda iawn. Weithiau nid addysg grefyddol ydi prif bwnc yr hyfforddai. Nid yw hynny o anghenraid yn anfantais. | | | | |
| 3. Mae myfyrwyr wedi cael eu hyfforddi'n dda mewn technegau dysgu ac addysgu. | | 2 Ysgolion | 2 Ysgolion | | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Angen am fwy ar amrediad o strategaethau, dulliau, technegau.<br>▪ Mae hyn yn bendant yn digwydd yn yr ysgol. Yn y brifysgol, mae'n fwy o fater o theori nag o ymarfer. | | | | |

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Heb gytuno nac anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 4. Mae'n ymddangos bod myfyrwyr yn cael cefnogaeth dda yn ystod eu lleoliad. | 1 Ysgol | 3 Ysgolion | | | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Bydd hyfforddeion yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn yr ystafell ddosbarth. Mae rhaglen strwythuredig o ddatblygiad proffesiynol yn yr ysgol. | | | | |
| 5. Mae myfyrwyr yn ymateb yn dda i gyngor a gwerthuso. | 2 Ysgolion | 1 Ysgol | 1 Ysgol | | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Mae hyn yn amrywio lawer iawn! Mae rhai thrawon hyfforddiant dechreuol yn ardderchog ac yn derbyn cyngor, eraill yn llai parod i ymateb.<br>▪ Ydynt – bob tro'n awyddus ac yn barod i weithredu ar gyngor. | | | | |
| 6. Mae'r coleg yn darparu gwybodaeth dda am ei fyfyrwyr a'u prosiectau. | | 2 Ysgolion | 2 Ysgolion | | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Ydi – bydd ffurflenni cais / CV yn ddefnyddiol. Byddwn yn trafod yr aseiniadau os bydd hynny'n briodol. | | | | |
| 7. Mae'r coleg yn ymweld yn rheolaidd yn ystod lleoliadau. | | 2 Ysgolion | 1 Ysgol | 1 Ysgol | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Unwaith yn ystod lleoliad dysgu 1 a dwywaith yn ystod lleoliad dysgu 2, ar gyfartaledd.<br>▪ Dau ymweliad i bob lleoliad. Rydym yn gwybod bod mwy o gefnogaeth ar gael os bydd problem. | | | | |
| 8. Mae'r coleg yn gwrando'n dda ar sylwadau a gwerthuso ar fyfyrwyr. | 2 Ysgolion | 2 Ysgolion | | | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Cefnogaeth dda iawn oddi wrth y tiwtor pwnc. Bydd mentoriaid yn cael digonedd o gyfle i godi sylwadau / materion mewn cyfarfodydd. | | | | |

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Heb gytuno nac anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 9. Mae'r coleg yn darparu adroddiad yn sgil lleoliadau myfyrwyr. | | | 1 Ysgol | 1 Ysgol | |
| *Sylw ychwanegol:* | ▪ Ddim ar unigolion, ond mae crynodeb cyffredinol ar ddiwedd blwyddyn. Bydd cyfle i drafod lleoliadau myfyrwyr yn y cyfarfod mentoriaid blynyddol ym Mangor.<br>▪ Nid ydym yn ymwybodol o hyn.<br>▪ Daw adroddiad oddi wrth yr ysgol lle bydd y lleoliad cyntaf: ceir adroddiad crynhoi (cyffredinol) fis Mehefin. Cwblheir yr arfarniad myfyriwr o'r ymarfer. | | | | |
| 10. Sylwadau eraill.<br><br>*(Defnyddiwch daflen ychwanegol os bydd angen)* | ▪ Bydd y mentor pwnc a'r mentor cyd-drefnu'n gweld bod y gwaith partneriaeth yn ystod hyfforddiant dechreuol athrawon yn fuddiol, yn ddiddorol ac yn fanteisiol i'r naill ochr.<br>▪ Efallai y dylai fod mwy o bwyslais ar gael hyfforddeion i gymryd rhan ym mywyd ehangach yr ysgol. | | | | |

# CYD-GYFARFOD CYNGHORAU YMGYNGHOROL SAFONOL AR ADDYSG GREFYDDOL

Dydd Gwener, 9 Mawrth 2007 am 10.00 am
yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun

YN BRESENNOL:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | Ms. M. Lloyd (Cadeirydd CYSAG Sir Ddinbych) |
| CYSAG Conwy: | Mr. W. Davies, Mr. H. I. Evans, Y Cynghorydd A. M. Khan, Y Parchedig T. Roberts, Mrs. J. Roemmele, Mr. N. Richter a Ms. Tania ap Sion. |
| CYSAG Sir Ddinbych: | Mrs. I. Barros-Curtis, Ms. M. Bradshaw, Miss. H. Ellis, Mr. R. Elms, Mrs. B. Wyn Evans, Mrs. S. Harris, Mr. M. Hatch, Y Parchedig B. H. Jones, a Mrs. M. L. Jones. |
| CYSAG Sir y Fflint: | Y Cynghorydd C. Legg, Mrs. A. Suter, Y Cynghorydd F. Gillimore, Mr. H. E. Jones, a Mrs. Dora Jones. |
| DELLS: | Mrs. D. Morris. |
| Prifysgol Hope Lerpwl: | Mrs. J. Schmack, Ms. C. Cole, Mr. M. Feely a Ms. J Bache. |
| Swyddogion: | Mr. G. Craigen (Arolygydd/ Ymgynghorydd AG), Mrs. G. L. Davies (Athrawes Ymgynghorol Llythrennedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mr. Merrick Davies (Cyngor Sir Ddinbych), Mrs. D. C. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mr. Neville Hughes (Cyngor Sir Ddinbych) a Mr. Gwilym Luke Jones (Cyngor Sir Ddinbych). |

62. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Cyd-Gyfarfod o CYSAG'au Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

63. **CYFLWYNIAD ODDI WRTH STAFF A MYFYRWYR PRIFYSGOL HOPE LERPWL**

Croesawodd yr Arolygydd/ Ymgynghorydd AG y cynrychiolwyr o Brifysgol Hope, a gafodd wahoddiad i roi cyflwyniad ar AG o fewn y Rhaglen ITT.

Roedd y cyflwyniad yn amlygu Rhaglen Addysg Tystysgrif Ôl-Raddedig AG (Uwchradd) (TAR). Nodwyd bod y rhaglen yn gwrs naw mis dwys, yn dechrau efo cwrs cyfnerthu 10-diwrnod a phennu targedau.

Rhoddwyd amlinelliad o gynnwys y rhaglen i'r Aelodau, ac roedd yn cynnwys; Prosiectau; Delio ag Anghenion; Cefnogi; Dysgu ac Addysgu; Arsylwi; Perthnasau; Asesu; a Dysgu Gydol Oes.

Rhoddodd myfyrwyr a oedd ar y rhaglen TAR ym Mhrifysgol Hope ar hyn o bryd drosolwg i'r Aelodau o'u profiadau ar y rhaglen.

Dwedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau AG Prifysgol Hope wrth yr Aelodau am y Rhaglen TAR (Cynradd), a oedd yn debyg iawn i'r cwrs uwchradd. Nodwyd ei bod yn dod yn gynyddol anodd cael swyddi fel Athro/awes Ysgol Gynradd yn Lloegr, o ganlyniad i'r ffaith bod mwy a mwy o Gymhorthwyr Dysgu yn addysgu AG.

Cyfeiriwyd at y lleoliadau trawsffiniol a'r diffyg nawdd a oedd ar gael. Dwedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau AG Prifysgol Hope wrth yr Aelodau bod hyn yn broblem a bod llythyrau wedi cael eu hysgrifennu at y corff ariannu.

Dwedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau AG bod y cwrs cyfnerthu yn ymdrin ag amrywiaeth o grefyddau.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Prifysgol Hope am y cyflwyniad a dymunodd yn dda i'r myfyrwyr yn eu hastudiaethau pellach.

**PENDERFYNWYD -**

**Diolch i gynrychiolwyr Prifysgol Hope am y cyflwyniad.**

64. **CYFLWYNIAD AR Y FFRAMWAITH GENEDLAETHOL DDIWYGIEDIG AR GYFER AG**

Croesawodd yr Arolygydd/ Ymgynghorydd y Swyddog Pwnc, o'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DELLS) a gafodd wahoddiad i roi cyflwyniad ar y 'Fframwaith Genedlaethol Ddiwygiedig ar gyfer AG'.

Dwedwyd wrth yr Aelodau bod y Fframwaith newydd ar gyfer AG wedi cael ei sylfaenu ar y ddogfen ganllaw flaenorol 'Adolygiad o Feysydd Llafur Addysg Grefyddol: Canllaw ar gyfer Awdurdodau Addysg Lleol a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytûn yng Nghymru', a dderbyniwyd yn gadarnhaol gan y CYSAG'au ac AALl. Roedd y Fframwaith Enghreifftiol Genedlaethol ddiwygiedig ar gyfer AG yn cynnig cyfle i ddarparu fframwaith asesu eglur ar gyfer Cymru gyfan a gwella safonau ar gyfer AG yn genedlaethol. Nodwyd bod AALl a CYSAG'au yng Nghymru wedi oedi eu hadolygiad pob pum mlynedd o'i faes llafur cytûn lleol er mwyn ystyried mabwysiadu/ addasu'r fframwaith ddiwygiedig hon.

Amlygodd y cyflwyniad i'r Aelodau, trwy fabwysiadu ymagwedd genedlaethol at AG, byddai'n codi safonau ac y byddai gan athrawon, disgyblion a rhieni

ddealltwriaeth glir o’r pwnc; gellid datblygu enghreifftio yn genedlaethol; gellid datblygu adnoddau i helpu arfer da; a gellid hyrwyddo asesu a’i fonitro’n genedlaethol.

Amlygodd y Swyddog Pwnc hefyd pam fod y Fframwaith Enghreifftiol ar gyfer AG yn ddogfen mor arwyddocaol. Dwedwyd wrth yr aelodau ei fod yn cyd-fynd ag amcanion yr adolygiad cwricwlwm ysgol, a oedd yn canolbwyntio ar ysgogi a chynnwys yr holl ddysgwyr; yn gwneud yr holl bynciau’n berthnasol i’r 21 ganrif; yn mabwysiadu sgiliau’n seiliedig ar ymagwedd; ac yn sicrhau cysondeb, cynnydd a phontio effeithiol rhwng y cyfnod sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Roedd y Fframwaith hefyd yn adeiladu ar arfer da ac yn sicrhau bod elfennau hanfodol y pwnc yn cael eu cynnwys.

Soniwyd wrth yr Aelodau am yr hyn oedd wedi ei gynnwys yn y Fframwaith a’r gwahanol themâu/ testunau y gellid eu defnyddio o fewn yr ystod. Hefyd nodwyd bod y disgrifiadau lefel yn perthyn yn uniongyrchol i’r sgiliau. Cadarnhaodd yr Athrawes Ymgynghorol Llythrennedd bod y Fframwaith yn cyd-fynd yn dda â sgiliau llythrennedd.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod bod y Fframwaith Genedlaethol Ddiwygiedig ar gyfer AG yn gam pwysig ymlaen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Gadawodd y tri CYSAG y cyfarfod i ailffurfio yn unigol i ystyried y canlynol; cytuno ar Ymateb Ddrafft oddi wrth CYSAG; cytuno mewn egwyddor i fabwysiadu’r ‘Fframwaith’; gofyn i’r AALl sefydlu gweithgor o athrawon ac Aelodau CYSAG o baratoi Maes Llafur Cytûn diwygiedig (mewn partneriaeth â CYSAG’au lleol eraill), a fyddai’n cael ei gyflwyno i Gynhadledd Maes Llafur Cytûn; a darparu deunyddiau cefnogol a deongliadol a dogfennau canllaw (mewn partneriaeth â CYSAG’au eraill yng Nghymru).

65. **YMATEBION ODDI WRTH Y TRI CYSAG**

<u>CYSAG Conwy</u>

Cadarnhaodd Cadeirydd CYSAG Conwy bod yr holl aelodau’n cytuno efo’r ymateb ddrafft. Fodd bynnag, argymhellwyd rhai newidiadau bychain a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Gwneud yn siŵr Bod trefn y rhestr yn gyson o fewn yr Ystod trwy gydol y rhaglen astudio.
- Edrych mewn i’r posibilrwydd o’r eiconau a ddefnyddir yn y Fframwaith fod ar gael i CYSAG ar fformat Word, fel y gellid eu defnyddio yng nghyhoeddiadau CYSAG.
- Bod ‘uchafswm nifer o grefyddau’ yn cael ei ddefnyddio yn lle ‘nifer o grefyddau’ o fewn y Maes Llafur Cytûn yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 a defnyddio ‘cyfeirio at’ yn hytrach na ‘ymwneud’.

<u>CYSAG Sir y Fflint</u>

Cytunodd Aelodau o CYSAG Sir y Fflint efo’r ymateb drafft, ond roedd peth

dadlau ynglŷn â'r 'nifer o grefyddau' a'r ffaith nad oedd Aelodau'n cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad.

CYSAG Sir Ddinbych

Cytunodd Aelodau Sir Ddinbych efo'r ymateb ddrafft, fodd bynnag roedd rhai pryderon ynglŷn â'r asesiad anghenion arbennig. Cadarnhaodd y Swyddog Pwnc bod DELLs yn edrych mewn i'r mater. Hefyd roedd yr Aelodau'n teimlo y byddai 'uchafswm/ dim mwy na' o grefyddau yn fwy priodol.

Cytunodd y tri CYSAG; i fabwysiadu'r Fframwaith mewn egwyddor fel prif sylfaen y Maes Llafur Cytûn ar gyfer AG, yn amodol ar ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad; gofyn i'r AALl sefydlu gweithgor o athrawon ac Aelodau CYSAG o baratoi Maes Llafur Cytûn diwygiedig (mewn partneriaeth â CYSAG'au lleol eraill), a fyddai'n cael ei gyflwyno i Gynhadledd Maes Llafur Cytûn; a bod CYSAG yn darparu deunyddiau cefnogol a deongliadol a dogfennau canllaw mewn partneriaeth â CYSAG'au eraill yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD –**

**Bod CYSAG'au Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn cytuno i'r argymhellion canlynol:**

**(a)** **Bod y Fframwaith yn cael ei mabwysiadu mewn egwyddor fel prif sylfaen y Maes Llafur Cytûn ar gyfer AG, yn amodol ar ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad.**

**(b)** **Gofyn i'r AALl sefydlu gweithgor o athrawon ac Aelodau CYSAG o baratoi Maes Llafur Cytûn diwygiedig (mewn partneriaeth â CYSAG'au lleol eraill), a fyddai'n cael ei gyflwyno i Gynhadledd Maes Llafur Cytûn.**

**(c)** **Bod CYSAG yn darparu deunyddiau cefnogol a deongliadol a dogfennau canllaw mewn partneriaeth â CYSAG'au eraill yng Nghymru.**

(Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 pm)

---

**Cyngor Sir Dinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 3 July 2007 |
| Eitem ar yr Agenda: | **3** | Adroddiad: | **Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu Ysgolion Estyn** |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Fel rhan o'i rôl monitro, mae CYSAG yn adolygu Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol (YMCD) ac elfennau Addysg Grefyddol Adroddiadau Arolygu Estyn ar ysgolion yn yr AALI.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Dadansoddi'r sylwadau a wnaed yn yr Adroddiadau Arolygu diweddar ar ysgolion yn yr AALI, ac i nodi'r agweddau positif a negyddol yn y ddarpariaeth YMCD, ac Addysg Grefyddol lle bu'n rhan o'r arolygiad.

*Argymhellion:*

I CYSAG:
- derbyn y dadansoddiad o'r Adroddiadau Adolygu;
- cytuno bod llythyrau'n cael eu hanfon i'r ysgolion a arolygwyd, gan eu llongyfarch am y nodweddion da a chynnig gwasanaethau'r Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol Neu swyddogion eraill yr AALI wrth fodloni Diffygion neu faterion allweddol.

I'r AALI:
- gofyn i'r AALI ddosbarthu'r llythyrau uchod;
- cynnig gwasanaethau'r Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol neu swyddogion eraill yr AALI i gynorthwyo ysgolion wrth fodloni'r diffygion neu faterion allweddol;
- dosbarthu'r llythyrau oddi wrth CYSAG i'r ysgolion.

**Agenda Eitem: 3**

## SYLWADAU CYD-DESTUN: ADRODDIADAU AROLWG SACRE SIR DDINBYCH

### 3 Gorffennaf 2007

| Ysgol | Dyddiadau | Arolygwr Cofrestredig | Arolygwr SMSC./ Cwestiwn Allweddol 3 | CYF. Arolwg |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Uwchradd Glan Clwyd** | **23 Hydref 2006** | **Gareth W Roberts** | **Emrys Price Jones** | **Heddwyn Evans** |
| *Mae Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy yn ysgol gyfun gymuned ar gyfer disgyblion a myfyrwyr 11 - 18 oed. Enwebwyd hi fel ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae 725 o ddisgyblion ar y gofrestr a 108 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae'r nifer o ddisgyblion a myfyrwyr wedi cynyddu ers yr arolwg diwethaf a rhagwelir y bydd y nifer yn cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae dalgylch yr ysgol yn wasgaredig yn ddaearyddol ac mae'n cynnwys rhannau o ogledd Sir Ddinbych a Sir y Fflint ac ardal ddwyreiniol Sir Conwy. Mae'n cynnwys nifer o ardaloedd trefol ond mae rhai pentrefi bach o fewn ardal wledig. Mae mwyafrif llethol y disgyblion yn dod o ardaloedd nad sy'n freintiedig nac yn ddifreintiedig yn gymdeithasol nac yn economaidd . Mae 7.2% o'r disgyblion wedi'u cofrestru fel rhai â hawl i ginio ysgol am ddim tra bod 25% o fyfyrwyr y chweched dosbarth yn derbyn grant cynnal. Nid oes un disgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae 14 o ddisgyblion ar ddatganiad anghenion addysgol arbennig (SEN). Mae hyn yn sylweddol is na'r canran Cenedlaethol. Mae 6 disgybl wedi'u hanghymhwyso o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Hefyd, mae 64 disgybl ar gamau 'gweithredu gan yr ysgol' a 'gweithredu gan yr ysgol a mwy' Cod Ymarfer i Ddisgyblion ag AAA. Mae 30% o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg yn bennaf a 70% o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif neu'n unig iaith sy'n cael ei siarad. Mae 95% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r iaith Gymraeg fel prif gyfrwng addysg ond dysgir rhai pynciau yn y chweched dosbarth drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r ysgol yn cydweithredu gydag ysgol leol arall a choleg addysg bellach i gynnig cyrsiau galwedigaethol llawn a rhan amser i rai disgyblion yn ystod CA4. Mae'r ysgol yn cydweithio gyda choleg addysg bellach arall i ddarparu cyrsiau Lefel AS ac A i fyfyrwyr.* | | | | |
| **Ysgol Bryn Hedydd** | **20 Tachwedd 2006** | **E G Morris** | **M Meredith Jones** | **Dim Arolwg** |
| *Mae Ysgol Bryn Hedydd yn ardal ddwyreiniol Y Rhyl. Mae mwyafrif y disgyblion yn dod o'r ardal gyfagos. Saesneg yw iaith mwyafrif y cartrefi. Nid oes un disgybl yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Disgrifir yr ardal gan yr ysgol fel un nad sy'n ffyniannus nac yn ddifreintiedig yn economaidd. Mae 8% o'r disgyblion wedi'u cofrestru fel rhai â hawl i gael cinio am ddim. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd o fewn yr AALl o 12.3% a'r cyfartaledd dros Gymru gyfan o 19.7%. Mae 3 disgybl lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae 409 o ddisgyblion ar y gofrestr o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 a threfnir y rhain i gyd yn 14 dosbarth un oed paralel. Hefyd, mae 53 disgybl yn mynychu meithrinfa'n rhan amser. Nodwyd 68 disgybl fel rhai ag AAA gan gynnwys 35 ar gynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy ac 1 disgybl ar ddatganiad AAA. Mae 17 o athrawon llawn amser gan gynnwys y Pennaeth ynghyd â 3 o athrawon sy'n gweithio'n rhan amser.* | | | | |
| **Ysgol Glyndyfrdwy** | **29 Ionawr 2007** | **Wil Williams** | **Lisa J Davies** | **Wil Williams** |
| *Mae Ysgol Glyndyfrdwy yn ysgol gynradd gymuned ddwyieithog tua phum milltir i'r gorllewin o Langollen. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos ac mae'n darparu addysg i ddisgyblion 3-11 oed. Yn ôl yr ysgol, nid yw'r ardal yn ffyniannus nac yn ddifreintiedig yn economaidd. Nid oes un disgybl â hawl i ginio am ddim. Ar hyn o bryd, mae 19 disgybl ar y gofrestr ond nid oes un plentyn ym Mlwyddyn 2 a dim un plentyn yn y feithrinfa. Mae 2 o athrawon llawn amser a 2 rhan amser. Siaredir Cymraeg yng nghartrefi tua 20% o'r disgyblion. Cymraeg yw'r cyfrwng addysgu ar gyfer y rhai o dan bump oed ac yn CA1 ac mae disgyblion CA2 yn derbyn eu haddysg yn ddwyieithog. Mae gan 19% o'r disgyblion anghenion addysgol ychwanegol. Mae hyn yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae dau ddisgybl â datganiad anghenion addysgol ychwanegol.* | | | | |

**Dadansoddiad o Adroddiadau Arolwg SACRE Sir Ddinbych**
**3 Gorffennaf 2007**

## DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

*Prif Faterion:* *1 Ysgol*

*Sicrhau bod Y Cwricwlwm Cymreig yn fwy amlwg ym mhrofiadau dysgu disgyblion. (Ysgol Bryn Hedydd)*

## SYLWADAU POSITIF

**Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig** *3 Ysgol*

- Trefniadau hynod effeithiol i ddatblygu'r 'Cwricwlwm Cymreig' *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Mae'r ysgol yn llwyddo'n rhagorol i hybu holl sgiliau dwyieithog y disgyblion gan gynnwys y grŵp trochi ym Mlynyddoedd 7 ac 8. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Yn eu hastudiaethau daearyddiaeth ac Addysg Grefyddol, mae disgyblion yn dysgu am ddiwylliannau eraill. Mae'r ysgol wedi nodi cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion am ddiwylliant Cymru fel maes datblygu. *(Ysgol Bryn Hedydd)*
- Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygu sgiliau dwyieithog disgyblion ar draws y cwricwlwm. (Ysgol Glyndyfrdwy)
- Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael ei hybu'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Caiff disgyblion gyfleoedd da i ddysgu am eu hetifeddiaeth a'u diwylliant Cymreig a'u hardal. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Dinasyddiaeth Fyd-eang / Addysg Fyd-eang / Cysylltiadau Rhyngwladol** *3 Ysgol*

- Mae'r profiadau dysgu'n hybu addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Enillodd yr ysgol wobrau am y gwaith hwn. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Mae cyfraniadau at godi arian yn cadarnhau'n gyson yr ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang. *(Ysgol Bryn Hedydd)*
- Mae disgyblion yn derbyn cyfleoedd da i drafod digwyddiadau byd-eang ac i ystyried amodau byw pobl mewn gwahanol rannau o'r byd. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Ymwybyddiaeth / Hybu Datblygiad Cynaliadwy** *3 Ysgol*

- Mae'r profiadau dysgu'n hybu addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Enillodd yr ysgol wobrau am y gwaith hwn. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy'n datblygu'n gyson ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol wedi cymryd camau mawr ym maes gweithgarwch eco-berthnasol ac mae disgyblion yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd ynni cynaliadwy a

gweithio gyda natur. Mae'r agwedd hon yn amlwg mewn arddangosiadau ysgol ac mae disgyblion wedi bod yn cydweithio gyda chwmni sy'n darparu ynni o ffermydd gwynt. Maen nhw wedi gwneud gwaith cwricwlaidd sy'n berthnasol i hyn mewn pynciau fel daearyddiaeth ac ABCh. Mae'r ysgol yn gweithredu mewn modd cynaliadwy. *(Ysgol Bryn Hedydd)*

- Mae gan ddisgyblion wybodaeth briodol am bwysigrwydd datblygiad cynaliadwy. Mae ganddyn nhw wybodaeth dda o arwyddocâd perthynas pobl â'u hamgylchedd a'r modd y mae cymunedau a phobl yn effeithio ar ei gilydd. Mae'r ysgol yn gweithredu'n gynaliadwy drwy ailgylchu deunyddiau. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Darpariaeth ar gyfer Datblygiad SMSC** *2 Ysgol*

- Yn eu gwersi, mae achosion o gyd-addoli a gweithgareddau allgyrsiol yn nhrefniadau'r ysgol yn sicrhau bod pob disgybl yn datblygu'n hynod o dda yn ysbrydol, yn foesol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Mae'r ysgol yn talu sylw da i ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Gweithgareddau / Cyfleoedd Allgyrsiol** *2 Ysgol*

- Mae'r profiadau dysgu'n ehangu ac yn cyfoethogi profiadau disgyblion drwy amrediad pwysig ac eang o weithgareddau gan gynnwys darpariaeth y tu allan i'r ysgol ac oddi ar y safle. Mae'r rhain yn cynnwys:
    - cysylltiadau gydag ysgol dramor a pharodrwydd i groesawu ymwelwyr o wledydd eraill er mwyn ffurfio cysylltiadau;
    - cyfraniad nifer helaeth o ddisgyblion at weithgareddau cerdd a drama'r ysgol a llwyddiannau mawr yn Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd dros y blynyddoedd diwethaf;
    - cynnal amrywiaeth eang o ymarferion, clybiau a chystadlaethau chwaraeon mewnol ac allanol gydag ysgolion eraill yn ystod yr awr ginio ac ar ddiwedd y prynhawn;
    - trefnu ar gyfer gwobrau Dug Caeredin a John Muir ar gael i'r disgyblion;
    - trefnu nifer o ymgyrchoedd elusennol sy'n codi ymwybyddiaeth disgyblion am bobl llai ffodus na hwy eu hunain ac yn codi symiau sylweddol o arian bob blwyddyn;
    - addasu'r cwricwlwm ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn ysgol i sicrhau gweithgareddau trawsgwricwlaidd, cadarnhau sgiliau personol a chymdeithasol disgyblion a myfyrwyr a gwella eu sgiliau allweddol. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Gweithgareddau y tu allan i'r ysgol ar gael i ddisgyblion gyfoethogi eu profiadau a'u datblygiad ymhellach. Mae'r rhain yn ymestyn o gyrsiau preswyl yng Nglan Llyn a Phentrellyncymer i ymweliadau â diwydiannau lleol a chymryd rhan yng Ngŵyl Celfyddydau Creadigol/Mynegiannol Sir Ddinbych. *(Ysgol Bryn Hedydd)*

**Datblygiad Ysbrydol** *2 Ysgol*

- Mae cydaddoli, sesiynau cylch a chymryd rhan gydag eglwysi lleol yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at hybu ymwybyddiaeth a gwerthoedd ysbrydol y disgyblion. *(Ysgol Bryn Hedydd)*
- Mae'r ysgol yn talu sylw da i ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion drwy weithredu rhaglen gynhwysfawr sydd hefyd yn cynnwys gofynion addysg bersonol a chymdeithasol . Mae'n cael ei hintegreiddio i mewn i waith ar draws y cwricwlwm ac yn cael effaith positif ar ddysgu ac agweddau'r disgyblion. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Cyfraniad Addysg Grefyddol at Ddatblygiad SMSC** *2 Ysgol*

- Mae'r holl gwricwlwm wedi'i gynllunio a'i strwythuro'n dda i hybu datblygiad personol, moesol a chymdeithasol y disgyblion.
  *(Ysgol Bryn Hedydd)*
- Mae amser cylch, addysg grefyddol a thrafodaethau dosbarth am faterion cymdeithasol a moesol yn rhan hanfodol o fywyd yr ysgol.
  *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Cyfraniadau Pynciau Eraill at Ddatblygiad SMSC** *2 Ysgol*

- Mae'r holl gwricwlwm wedi'i gynllunio a'i strwythuro'n dda i hybu datblygiad personol, moesol a chymdeithasol y disgyblion.
  *(Ysgol Bryn Hedydd)*
- Mae amser cylch, addysg grefyddol a thrafodaethau dosbarth am faterion cymdeithasol a moesol yn rhan hanfodol o fywyd yr ysgol.
  *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Rhaglen ar gyfer ABCh / Effaith Darpariaeth ABCh** *2 Ysgol*

- Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr a hynod effeithiol. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Hefyd, mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llwyr â'r disgwyliadau o safbwynt:;
  - y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol
  - y fframwaith ar gyfer addysg berthnasol i waith
  - y fframwaith addysg a chanllawiau gyrfaoedd.
    *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Mae'r ysgol yn talu sylw da i ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion drwy weithredu rhaglen gynhwysfawr sydd hefyd yn cynnwys gofynion addysg bersonol a chymdeithasol . Mae'n cael ei hintegreiddio i mewn i waith ar draws y cwricwlwm ac yn cael effaith positif ar ddysgu ac agweddau'r disgyblion. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Gwaith Cyngor yr Ysgol** *2 Ysgol*

- Mae Cyngor yr Ysgol bellach wedi'i sefydlu'n gadarn ac mae'n cyfrannu at ddiwylliant democrataidd a chyfrifol yn yr ysgol. *(Ysgol Bryn Hedydd)*
- Mae Cyngor yr Ysgol yn galluogi'r disgyblion i gymryd rhan ffurfiol wrth wneud penderfyniadau. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Cyfle Cyfartal** *2 Ysgol*

- Mae'r profiadau dysgu'n rhagorol wrth ddelio ac amddifadiad cymdeithasol a stereoteipio ac i sicrhau cyfle a mynediad cyfartal i bob disgybl. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr sy'n hybu cyfle cyfartal yn effeithiol. Maen nhw'n sicrhau mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i bob disgybl beth bynnag eu rhyw, gallu, cefndir neu hil. *(Ysgol Bryn Hedydd)*

**Delio ag Amddifadiad Cymdeithasol a Stereoteipio** *2 Ysgol*

- Mae'r profiadau dysgu'n rhagorol wrth ddelio ag amddifadiad cymdeithasol a stereoteipio ac wrth sicrhau cyfle a mynediad cyfartal i bob disgybl. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Mae polisïau, cydaddoli, Amser Cylch a Chyngor yr Ysgol yn brwydro yn erbyn stereoteipio. *(Ysgol Bryn Hedydd)*

**Cadwraeth / Hybu Gwerthoedd / Moesgarwch / Parch** *1 Ysgol*

- Rhoddir cryn bwyslais ar ddisgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol, ar ddatblygu agweddau positif a gwella ar eu hymddygiad gorau. *(Ysgol Bryn Hedydd)*

**Ansawdd Perthnasoedd** *1 Ysgol*

- Mae ethos positif o barch rhwng athrawon a disgyblion o'r ddwy ochr a rhwng disgyblion â'i gilydd. *(Ysgol Bryn Hedydd)*

**Cyfleoedd i Adlewyrchu** *1 Ysgol*

- Rhoddir cyfleoedd da yn y sesiwn o gyd-addoli i ddisgyblion adlewyrchu, cynnig gweddïau digymell a thrafod materion personol difrifol. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Dda a Drwg** *1 Ysgol*

- Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n dda a'r hyn sy'n ddrwg. *(Ysgol Bryn Hedydd)*

**Elusennau ac Achosion Da** *1 Ysgol*

- Mae cyfraniadau at godi arian yn gyson gadarnhau ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang. *(Ysgol Bryn Hedydd)*

**Cyfraniad Cyd-addoli at Ddatblygiad SMSC** *1 Ysgol*

- Mae cyd-addoli, sesiynau amser cylch a chymryd rhan mewn eglwysi lleol gan yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at hybu ymwybyddiaeth ysbrydol a gwerthoedd disgyblion. *(Ysgol Bryn Hedydd)*

**Arddweud / Ysgrifennu / Cyfansoddi Gweddïau** *1 Ysgol*

- Rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion gynnig gweddïau digymell. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Cysylltiadau â / Cyfranogiad yn y Gymuned Leol** *1 Ysgol*

- Mae disgyblion hefyd yn elwa'n fawr o amrywiaeth ac ansawdd yr ymwelwyr â'r ysgol fel heddlu'r gymuned, nyrs, llyfrgellydd y dref a'r gwasanaeth ambiwlans.*(Ysgol Bryn Hedydd)*

**Cyfrifoldeb dros eu Haddysg eu Hunain** *1 Ysgol*

- Anogir disgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros eu haddysg eu hunain. Mae nod pendant yr ysgol sef y dylai pawb 'anelu at wneud yn well' yn arwyddol o hyn. *(Ysgol Bryn Hedydd)*

## ADDYSG GREFYDDOL

## SYLWADAU POSITIF

**Safonau Cyrhaeddiad** *2 Ysgol*

- CA3 – Graddfa 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- CA4– Graddfa 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Y Chweched Dosbarth – Graddfa 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Cyfnod Allweddol 1 – Graddfa 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig *(Ysgol Glyndyfrdwy)*
- Cyfnod Allweddol 2 - Graddfa 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Cynnwys Crefyddau Eraill Heblaw Cristnogaeth.** *2 Ysgol*

- Mae disgyblion CA3 a CA4 ag anghenion addysgol arbennig neu ychwanegol yn dangos cynnydd da yn eu gwybodaeth am y modd y mae credinwyr o wahanol grefyddau'n addoli ac yn dathlu eu ffydd. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Mae disgyblion CA3 a CA4 yn gallu disgrifio agweddau o Iddewiaeth yn fanwl a'u trafod yn hyderus gan ddefnyddio termau allweddol yn briodol. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Mae myfyrwyr Blwyddyn12 yn datblygu'r gallu i ddadansoddi, dehongli a gwerthuso agweddau o Fwdhaeth. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Mae disgyblion CA1 yn dangos cynnydd da yn eu gwybodaeth am grefyddau eraill fel Hindwaeth a gallan nhw berthnasu cred ei dilynwyr i'w harferion byw a'u diwylliant. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*
- Mae gan ddisgyblion CA2 wybodaeth am grefyddau eraill. Gallan nhw ddisgrifio prif wyliau'r amrywiol grefyddau, eu harferion addoli eu gwahaniaethau a'r nodweddion sy'n debyg. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Gwybodaeth / Dealltwriaeth o Gristnogaeth** *1 Ysgol*

- Yn CA!, mae disgyblion yn gwybod am y prif ddigwyddiadau ym mywyd Iesu Grist a gallan nhw egluro'r moesau a ddarlunnir mewn rhai o'r damhegion. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o rai o'r prif wyliau crefyddol a gallan nhw drafod y prif ddigwyddiadau sy'n gysylltiol â nhw. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*
- Mae gan ddisgyblion CA2 ymwybyddiaeth dda o'r nodweddion a'r arferion sy'n gysylltiedig â'r mannau addoli, y gwyliau Cristnogol a'r prif ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hwy. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Gwybodaeth / Dealltwriaeth o'r Beibl / Storiâu'r Beibl** *1 Ysgol*

- Yn CA1, mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o'r Beibl fel llyfr arbennig. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*
- Mae disgyblion CA2 yn gyfarwydd â nifer dda o storïau o'r Beibl a gallan nhw wahaniaethu rhwng cynnwys yr Hen Destament a chynnwys y Testament Newydd. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*
- Mae disgyblion CA2 yn gwybod sawl stori am fywyd Iesu Grist a gallan nhw eu hailadrodd yn fanwl. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Gwybodaeth / Dealltwriaeth o Gysyniadau / Themâu Crefyddol** *1 Ysgol*

- Yn CA3 a CA4 mae gan y disgyblion wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r unedau a astudiwyd. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Drwy ymweliadau â mannau addoli lleol ac eraill ymhellach i ffwrdd, mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion CA3 a CA4 o pam y mae credinwyr yn dathlu eu ffydd mewn gwahanol ffyrdd, yn datblygu'n dda. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Mae disgyblion CA3 a CA4 ag anghenion addysgol arbennig neu ychwanegol yn dangos cynnydd da yn eu gwybodaeth am y modd y mae credinwyr o wahanol grefyddau'n addoli ac yn dathlu eu ffydd. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Yn CA3 a CA4 mae disgyblion yn ymwybodol o hawliau dynol, peryglon rhagfarn a phwysigrwydd cred grefyddol i gredinwyr. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

**Ymweliadau ag Eglwysi / Capeli / Mannau Addoli Lleol** *1 Ysgol*

- Drwy ymweliadau â mannau addoli lleol ac eraill ymhellach i ffwrdd, mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion CA3 a CA4 o pam y mae credinwyr yn dathlu eu ffydd mewn gwahanol ffyrdd, yn datblygu'n dda. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

**Perthynas y Cynllun Gwaith i'r Maes Llafur Cytûn** *1 Ysgol*

- Yn CA3 a CA4 mae gan y disgyblion wybodaeth a dealltwriaeth o'r unedau a astudiwyd. Mae'r rhain yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

**Cyfleoedd ar gyfer Trafod Materion / Teimladau / Materion Moesol** *1 Ysgol*

- Yn CA3 a CA4 mae mwyafrif y disgyblion yn ymateb yn gywir, ar lafar ac yn ysgrifenedig ac, ar sail eu gwybodaeth, gallan nhw gyffredinoli a ffurfio barn. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

- Mae myfyrwyr y Chweched Dosbarth yn cymhwyso eu gwybodaeth grefyddol yn dda wrth drafod problemau moesol fel ewthanasia. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

**Gwybodaeth / Ymwybyddiaeth o Fywydau Enwog** *1 Ysgol*

- Mae astudio bywyd a gwaith Dr Barnardo wedi codi ymwybyddiaeth disgyblion CA2 o'r angen am helpu'r rhai sy'n llai ffodus na hwy eu hunain. *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Cyfleoedd ar gyfer Datblygu / Mynegi Credoau Personol** *1 Ysgol*

- Yn CA4 mae'r disgyblion yn ymateb yn onest i faterion moesol, cymdeithasol a diwylliannol ac, ar sail eu gwybodaeth, gallan nhw ffurfio barn ac yn aml gynnig rhesymau dilys dros eu hymatebion. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

**Cyfleoedd / Gallu i Fynegi eu Syniadau / Barn eu Hunain** *1 Ysgol*

- Yn CA4 mae'r disgyblion yn ymateb yn onest i faterion moesol, cymdeithasol a diwylliannol ac, ar sail eu gwybodaeth, gallan nhw ffurfio barn ac yn aml gynnig rhesymau dilys dros eu hymatebion. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Mae myfyrwyr y Chweched Dosbarth yn mynegi barn bersonol ddilys ar faterion fel ewthanasia ac yn cyfeirio'n briodol at y modd y mae crefyddau gwahanol yn delio â'r materion hyn. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

**Ansawdd / Amrywiaeth / Digonedd o Waith Ysgrifenedig** *1 Ysgol*

- Yn CA3 a CA4 gall disgyblion geisio, trefnu a chyflwyno gwybodaeth mewn amrediad eang o ffurfiau yn eu gwaith prosiect fel yr un ar eglwysi lleol. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

**Cyfleoedd i Ddatblygu / Defnyddio Sgiliau Archwilio / Ymchwilio** *1 Ysgol*

- Yn CA3 a CA4 gall disgyblion geisio, trefnu a chyflwyno gwybodaeth mewn amrediad eang o ffurfiau yn eu gwaith prosiect fel yr un ar eglwysi lleol. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

**Ymgyfarwyddo â Thermau Technegol / Geirfa Dechnegol** *1 Ysgol*

- Yn CA3 a CA4 mae pob disgybl yn datblygu gwybodaeth dda o dermau pwnc sy'n eu galluogi i ddeall a thrafod crefydd ar lefel briodol. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

**Darparu Dosbarthiadau Arholiad Addysg Grefyddol yn CA4 / 16+** *1 Ysgol*

- Ers yr arolwg diwethaf, mae'r ysgol wedi sicrhau bod pob aelod o'r chweched dosbarth yn cael gwersi addysg grefyddol ac felly, mae wedi dileu'r agwedd anfoddhaol yn ei darpariaeth. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

**Ymwybyddiaeth o Effaith Cred ar Ffordd o Fyw** *1 Ysgol*

- Yn ystod trafodaethau, mae myfyrwyr y chweched dosbarth yn dangos eu bod yn datblygu sylweddoliad a dealltwriaeth o'r dylanwad a gaiff ffydd ar fywyd credinwyr a sut maen nhw'n ymateb i rai o gwestiynau pwysig bywyd. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

**Cydymffurfio â Gofynion Statudol ar gyfer Addysg Grefyddol / Maes Llafur Cytûn** *1 Ysgol*

- Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion cyfreithiol a rhai'r byrddau arholi. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

## SYLWADAU NEGYDDOL

**Gwybodaeth / Dealltwriaeth o Gysyniadau / Themâu Crefyddol** *1 Ysgol*

- Nid yw gallu disgyblion CA2 i ddehongli syniadau crefyddol a moesol ac i feddwl yn feirniadol wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Disgyblion yn *(Ysgol Glyndyfrdwy)*

**Cyfleoedd ar gyfer Datblygu / Mynegi Credoau Personol** *1 Ysgol*

- Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau CA3 a CA4, mae trafodaeth yn y dosbarth yn undonog ac mae swildod rhai disgyblion yn ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw drafod syniadau mewn dyfnder. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

**Ansawdd / Amrywiaeth / Digonedd o Waith Ysgrifenedig** *1 Ysgol*

- Ym Mlwyddyn 12 mae diffyg manylion yn y gwaith ysgrifenedig weithiau a thuedd i rai myfyrwyr ddefnyddio steil storïol. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*
- Nid yw safon gwaith ysgrifenedig rhai o ddisgyblion galluocaf CA3 a CA4 yn adlewyrchu safon eu gwaith llafar a welwyd mewn rhai gwersi. *(Ysgol Uwchradd Glan Clwyd)*

**Cyngor Sir Dinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 3 July 2007 |
|---|---|---|---|
| Eitem ar yr Agenda: | **4** | Adroddiad: | **Gweithgor Maes Llafur Cytûn** |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Galwodd gyfarfodydd blaenorol CYSAG ar i'r AALl sefydlu Gweithgor Maes Llafur Cytûn i ddechrau paratoi Maes Llafur Cytûn newydd ar gyfer Sir Ddinbych yn sgil y penderfyniad i fabwysiadu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yn sail i Faes Llafur Cytûn Sir Ddinbych.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i aelodau CYSAG ar y cynnydd a gafwyd hyd yma wrth sefydlu'r grŵp a'i gyfarfod cyntaf sydd i fod i gael ei gynnal ar 4 Gorffennaf 2007.

2. Rhoi gwybod i'r aelodau am (a) ymateb positif yr AALl i'r cais a (b) natur gyfun y grŵp mewn cydweithrediad ag AALl Conwy a Sir Y Fflint

*Argymhellion:*

I CYSAG: - derbyn yr adroddiad

I'r AALl: - Bodloni costau'r gweithgor fel y cytunwyd gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

**Cyngor Sir Dinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 3 July 2007 |
| Eitem ar yr Agenda: | **5 (a)** | Adroddiad: | **Cofnodion cyfarfod diwethaf Cymdeithas CYSAG Cymru** |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Gymdeithas yn Hwlffordd ar 23 Mawrth 2007, a chynhwysodd gyflwyniad gan Denize Morris o AADGOS ar y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol, a chan Lesley Francis o Fangor ar wahanol arddulliau addysgu.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Derbyn cofnodion y cyfarfod a chael y wybodaeth ddiweddaraf gan aelodau a fu'n bresennol ar ran CYSAG Sir Ddinbych.

*Argymhellion:*

I CYSAG: Derbyn yr adroddiad.

I'r AALI:

Agenda Eit

Chairman / Cadeirydd: Mr. G. Craigen
Cefnogi'r Cwricwlwm / Curriculum Support
Neuadd y Sir / County Hall
Yr Wyddgrug / Mold
CH7 6ND

Secretary / Ysgrifennydd : Mrs. S. Collingbourne
The Gables
Llanwern
Casnewydd / Newport
De Cymru / S.Wales NP18 2DS
Tel / Ffôn 01633 411919
E-bost / Email: susan.collingbourne@tinyworld.co.uk

| Minutes of a meeting held at County Hall, Haverfordwest on 23rd March 2007 | Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Hwlffordd, ar 23ain Mawrth 2007 |
|---|---|
| **1. Quiet Reflection**<br>The Chair invited members to join him a few moments of quiet reflection on the Bicentenary of the Abolition of Slavery. He asked us to pause, think and give thanks for those who had worked for slavery to end. He also asked us to consider and reflect on those who are still enslaved today. | **1. Adfyfyrio tawel**<br>Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ymuno ag ef mewn ychydig eiliadau o adfyfyrio tawel ar Ddeucanmlwyddiant Dilead Caethwasiaeth. Gofynnodd i ni oedi, meddwl a rhoi diolch am y rhai a oedd wedi gweithio i sicrhau diwedd caethwasiaeth. Gofynnodd hefyd i ni ystyried a myfyrio ar y rhai a oedd yn dal mewn caethiwed heddiw. |
| **2. Introduction and welcome**<br>The Chair welcomed Cllr.Bill Rogers – Vice Chair of Pembrokeshire County Council, and thanked him for the hospitality. He also welcomed Cllr Alwyn Luke – Chair of Pembrokeshire SACRE to the meeting. | **2. Cyflwyniad a chroeso**<br>Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Bill Rogers, Is-Gadeirydd Cyngor Sir Penfro, a diolchodd iddo am groeso'r Cyngor. Estynnodd groeso hefyd i'r Cynghorydd Alwyn Luke, Cadeirydd CYSAG Sir Benfro, i'r cyfarfod. |
| Cllr. Rogers commented on the interesting agenda and extended a warm welcome to Pembrokeshire. He spoke of his experience of 25years as a Headteacher and his appreciation of the importance of Religious Education in today's curriculum . He spoke of the importance of Collective Worship at the start of each school day. | Gwnaeth y Cynghorydd Rogers sylw ar yr agenda diddorol, ac estynnodd groeso cynnes i Sir Benfro. Soniodd am ei 25 blwyddyn o brofiad fel Pennaeth, ac am ei werthfawrogiad o bwysigrwydd Addysg Grefyddol yng nghwricwlwm heddiw. Siaradodd am bwysigrwydd Addoli ar y cyd ar ddechrau pob diwrnod ysgol. |

| | |
|---|---|
| **3. Apologies**<br>Fr.Ieuan Wyn Jones, Graham Davies, Meinir Loader, Nicholas Richter, Cllr. Morfudd Jones, Mairwenna Lloyd, Brian Hughes-Jones, Cllr.Chris Barry, Cllr.David Jarrett, Cllr.J.Rogers, Julie Pugh, Monica Loat, Anne Suter, Tudor Thomas, The Ven.J.Lewis | **3. Ymddiheuriadau**<br>Y Tad Ieuan Wyn Jones, Graham Davies, Meinir Loader, Nicholas Richter, y Cynghorydd Morfudd Jones, Mairwenna Lloyd, Brian Hughes-Jones, y Cynghorydd Chris Barry, y Cynghorydd David Jarrett, y Cynghorydd J. Rogers, Julie Pugh, Monica Loat, Anne Suter, Tudor Thomas, yr Hybarch J. Lewis |
| **4. Minutes**<br>The minutes of the meeting held at Cwmbran on 17th November 2006 were accepted as a true record of that meeting with the addition of Revd Edward Evans to the attendance list. Proposed by Cllr.M.Gray and seconded by Mr.R.Thomas. | **4. Cofnodion**<br>Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghwmbrân ar 17eg Tachwedd 2006 eu derbyn fel rhai cywir, ar ôl ychwanegu enw'r Parch. Edward Evans at y rhestr presenoldeb. Cynigiwyd gan y Cynghorydd M. Gray, a eiliwyd gan Mr. R. Thomas. |
| **5. Matters Arising**<br>Cllr.E.Davies repeated his concern about the lack of attendance of Councillors at this meeting and previous meetings. The Chair asked members to remind their SACREs to send a more balanced representation to meetings. | **5. Materion yn codi**<br>Ailfynegodd y Cynghorydd E. Davies ei bryder ynglŷn â diffyg presenoldeb Cynghorwyr yn y cyfarfod hwn a chyfarfodydd blaenorol. Gofynnodd y Cadeirydd i'w aelodau atgoffa'u CYSAG'au i anfon cynrychiolaeth fwy cytbwys i gyfarfodydd. |
| **6. Correspondence**<br>The list of correspondence for the period October 2006 – 5th January 2007 was received. The Chair will do on-line response to Consultation documents. The Secretary gave a verbal update to the list of correspondence received since the papers were sent to SACRES :- responses to the Special Conference with DELLS from Flintshire, Denbighshire, Conwy; Annual Reports from RCT, Bridgend, Torfaen, Carmarthenshire and Merthyr Tydfil; letter from Culham Institute re. plans for a centre; papers for RE Council meeting. | **6. Gohebiaeth**<br>Derbyniwyd y rhestr gohebiaeth am y cyfnod Hydref 2006 – 5ed Ionawr 2007. Byddai'r Cadeirydd yn ymateb ar-lein i ddogfennau Ymgynghori. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd restr ar lafar o'r ohebiaeth a dderbyniwyd ers i bapurau'r cyfarfod gael eu hanfon at y CYSAG'au:– ymatebion i'r Gynhadledd Arbennig gydag AADGOS gan GYSAG'au, , Sir y Fflint, Sir Ddinbych, a Chonwy; Adroddiadau blynyddol gan GYSAG'au Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Torfaen, Sir Gaerfyrddin a Merthyr Tudful; llythyr gan Sefydliad Culham ynglŷn â chynlluniau am ganolfan; papurau ar gyfer cyfarfod o'r Cyngor AG. |

7. **Presentation 'DELLS – Exemplar Framework for RE' by Denize Morris**

The Chair expressed his gratitude to DELLS for including RE in the School Curriculum Review for the first time and highlighted that SACREs in Wales now have a unique opportunity to combine resources and adopt/ adapt the National Exemplar Framework for RE as their Agreed Syllabus.

In her presentation Denize Morris stated that a National Approach to RE would be beneficial because it would provide a clear focus for the subject across Wales and would help raise standards. The work that is currently being produced by DELLS would assist this process . Proposed work includes

i) i) A publication that would, build on the work of the OAMs, by exemplifying standards in relation to the National Exemplar Framework

ii) ii) A range of published pupil resources commissioned by DELLS to support the National Exemplar Framework.

iii) iii) A pilot study within schools over the next 3 years which will help secure teacher assessment using the National Exemplar Level Descriptions at Key Stage 3 (alongside the National Curriculum subjects).

Mrs. Morris gave a comprehensive explanation of how the aims of the School Curriculum Review have been addressed in the National Exemplar Framework by explaining how the essential interrelationship of the three skills in the framework can enthuse and motivate pupils by raising contemporary and relevant issues for the 21st century. [The three skills are (i) engaging with fundamental questions, ii) exploring religious beliefs, teachings and practice and iii) expressing personal responses)]. To demonstrate this interrelationship and the

7. **Cyflwyniad AADGOS — 'Fframwaith Enghreifftiol ar gyfer AG' gan Denize Morris**

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch i AADGOS am gynnwys AG yn yr Adolygiad o Gwricwlwm yr Ysgolion am y tro cyntaf, a phwysleisiodd fod gan CYSAG'au yng Nghymru gyfle unigryw bellach i gyfuno adnoddau a mabwysiadu/addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG fel eu Maes Llafur Cytûn.

Yn ei chyflwyniad, dywedodd Denize Morris y byddai Dull Cenedlaethol ar gyfer AG yn fuddiol oherwydd y byddai'n darparu ffocws clir ar gyfer y pwnc ledled Cymru, ac yn gymorth i godi safonau. Byddai'r gwaith a oedd yn cael ei wneud gan AADGOS ar hyn o bryd yn cynorthwyo'r broses hon. Yr oedd y gwaith arfaethedig yn cynnwys

i) Cyhoeddiad a fyddai'n adeiladu ar waith y Deunyddiau Asesu Dewisol (OAMs), drwy enghreifftio safonau mewn perthynas â'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol

ii) Amrywiaeth o adnoddau cyhoeddedig ar gyfer disgyblion, wedi eu comisiynu gan AADGOS i ategu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol.

iii) Astudiaeth beilot mewn ysgolion dros y 3 blynedd nesaf, a fyddai'n gymorth i asesu cadarn gan athrawon gan ddefnyddio'r Disgrifiadau Lefelau Enghreifftiol yng Nghyfnod Allweddol 3 (ochr yn ochr â phynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol).

Cyflwynodd Mrs. Morris eglurhad cynhwysfawr o'r modd yr oedd amcanion cyffredinol yr Adolygiad o Gwricwlwm yr Ysgolion wedi eu trin yn y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol, drwy egluro sut y gall cydberthynas hanfodol y tri sgil yn y fframwaith danio brwdfrydedd disgyblion a'u hysgogi drwy godi materion cyfoes a

| | |
|---|---|
| essential links between skills and range she provided practical examples from the work currently being developed by practising teachers. Mrs Morris explained how continuity, progression and effective transition had been achieved from the foundation phase to post 16 and explained how the level descriptions (which relate directly to the skills) would raise standards. | pherthnasol i'r 21ain ganrif. [Y tri sgil yw (i) trafod cwestiynau sylfaenol, ii)archwilio credoau, athrawiaethau ac ymarferiad crefyddol, a iii) mynegi ymatebion personol]. Er mwyn dangos y gydberthynas a'r cysylltiadau hanfodol rhwng sgiliau ac amrywiaeth, darparodd enghreifftiau ymarferol o'r gwaith a oedd yn cael ei ddatblygu ar y pryd gan athrawon gweithredol. Eglurodd Mrs Morris sut yr oedd parhad, dilyniant a thrawsnewid effeithiol wedi eu cyflawni o'r Cyfnod Sylfaen i'r cyfnod ôl-16, ac eglurodd sut y byddai'r disgrifiadau lefelau (sydd â pherthynas uniongyrchol â'r sgiliau) yn codi safonau. |
| Mrs. Morris explained the process that had been undertaken during the development of the document, emphasising the stringent quality assurance that had taken place before being approved for consultation by the Minister. Mrs. Morris reminded Colleagues of the Minister 's presentation at the special conference in May 06 where the first draft of the document was discussed and largely approved of by delegates. Mrs Morris stressed the importance of the National Exemplar Framework for Wales which provides a coherent approach and builds on and strengthens good practice and allows SACREs across Wales to unite. | Eglurodd Mrs Morris y broses yr ymgymerwyd â hi wrth ddatblygu'r ddogfen, gan bwysleisio caethder y broses sicrhau ansawdd yr aethpwyd drwyddi cyn i'r ddogfen gael ei chymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad gan y Gweinidog. Atgoffodd Mrs Morris ei chydweithwyr am gyflwyniad y Gweinidog yn y gynhadledd arbennig ym Mai 2006, lle'r oedd drafft cyntaf y ddogfen wedi ei drafod ac wedi ei gymeradwyo i raddau helaeth gan y cynrychiolwyr. Pwysleisiodd Mrs Morris bwysigrwydd y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol i Gymru, a oedd yn darparu dull cydlynol ac yn adeiladu ar arfer da ac yn ei gryfhau, ac yn caniatáu i CYSAG'au ledled Cymru uno. |
| The Chair reaffirmed her statement suggesting that this is 'a momentous time' for RE. He thanked Mrs Morris for her obvious enthusiasm for the subject and her desire to promote RE as a subject which has direct relevance for pupils in the 21st century. | Ategodd y Cadeirydd awgrym Mrs Morris fod hwn yn 'gyfnod pwysig iawn' i AG. Diolchodd i Mrs Morris am ei brwdfrydedd amlwg dros y pwnc, a'i dymuniad i hybu AG fel pwnc sydd â pherthnasedd uniongyrchol i ddisgyblion yn y 21ain ganrif. |
| Mrs. Morris commented that 'we have a subject that offers community cohesion – wisdom from the past and present – that which is the spiritual and moral'. | Dywedodd Mrs. Morris 'fod gennym bwnc sy'n cynnig cydlyniad cymunedol — doethineb y gorffennol a'r presennol — yr hyn sy'n ysbrydol ac yn foesol'. |
| The document has given us a National forum for debate and discussion. In 2001 the subject was formatted in the same way as other curriculum subjects and good feedback was received. | Yr oedd y ddogfen wedi rhoi i ni fforwm Cenedlaethol ar gyfer dadl a thrafodaeth. Yn 2001 yr oedd gan y pwnc yr un diwyg â phynciau eraill y cwricwlwm, a derbyniwyd adborth da. |
| | Yr oedd disgrifwyr lefelau wedi caniatáu i |

| | |
|---|---|
| Level descriptors allowed teachers to identify the standards in Wales and also led to consistency. Optional Assessment materials followed. | athrawon ganfod beth oedd y safonau yng Nghymru, ac wedi arwain hefyd at gysondeb. Yr oedd deunyddiau Asesiad Dewisol wedi dilyn. |
| The National Exemplar Framework for RE gives an overview of what to expect, not statutory instructions. It follows the same format as the other curriculum Orders. It can be adapted or adopted by LEA's and it does not tell how to teach RE or give lesson plans – it is an overview. | Yr oedd y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG yn rhoi trosolwg ar beth i'w ddisgwyl, nid cyfarwyddiadau statudol. Yr oedd yn dilyn yr un diwyg â'r Gorchmynion cwricwlwm eraill. Yr oedd modd i AALl'au ei addasu neu ei fabwysiadu, ac nid oedd yn dweud sut y dylid addysgu AG, nac yn cyflwyno cynlluniau gwersi — trosolwg oedd. |
| A National approach to RE can raise standards by:<br>• giving teachers, pupils, parents and the general public a clear understanding of the nature of the subject.<br>• developing exemplification nationwide.<br>• developing resources to help promote good practice.<br>• promoting assessment and monitoring nationally. | Gallai dull Cenedlaethol o ymdrin ag AG godi safonau drwy :<br>• roi i athrawon, disgyblion, rhieni a'r cyhoedd ddealltwriaeth glir o natur y pwnc.<br>• datblygu enghreifftio ledled y wlad.<br>• datblygu adnoddau er mwyn helpu i hybu arfer da.<br>• hybu asesu a monitro'n gyffredinol. |
| National Exemplification is produced to:<br>• show teachers how to use the Framework<br>• exemplify standards<br>• produce guidance from Foundation Phase to Post 16. | Yr oedd Enghreifftio Cenedlaethol yn cael ei gynhyrchu er mwyn:<br>• dangos i athrawon sut i ddefnyddio'r Fframwaith<br>• enghreifftio safonau<br>• cynhyrchu cyfarwyddyd o'r Cyfnod Sylfaen hyd at addysg Ôl-16. |
| Mrs. Morris listed the resources being produced by DELLS and spoke of the new tenders to be sent out this summer. The resources included 'Abolition of Slavery Act' produced by CYMAL.<br>A Collective Worship website will be available soon. | Rhestrodd Mrs. Morris yr adnoddau a oedd yn cael eu cynhyrchu gan AADGOS, a soniodd am y tendrau newydd a oedd i'w hanfon allan yn ystod yr haf nesaf. Yr oedd yr adnoddau'n cynnwys 'Y Ddeddf Dileu Caethwasiaeth', a oedd wedi ei gynhyrchu gan CYMAL.<br>Byddai gwefan Addoli ar y cyd ar gael cyn hir. |
| The KS3 Securing Teacher Assessment Pilot for RE is under discussion. It will collect together pupils work that best | Yr oedd Peilot 'Sicrhau Asesiadau Athrawon' ar gyfer AG yn CA3 wrthi'n cael ei drafod. Byddai'n casglu gwaith gan |

| | |
|---|---|
| exemplifies characteristics of the DELLS National Exemplar levels for RE. It will moderate pupils work in order to help RE departments. | ddisgyblion a oedd yn rhoi'r enghreifftiau gorau o nodweddion lefelau Enghreifftio Cenedlaethol AADGOS ar gyfer AG. Byddai'n safoni gwaith disgyblion er mwyn bod yn gymorth i adrannau AG. |
| The Framework is a significant document because it is motivating and engaging all learners and makes the subject relevant to the 21st century. It has a skills based approach with continuity and progression ensuring an effective transition. | Yr oedd y Fframwaith yn ddogfen arwyddocaol oherwydd ei fod yn symbylu ac yn cynnwys yr holl ddysgwyr ac yn gwneud y pwnc yn berthnasol i'r 21ain ganrif. Yr oedd ei ddulliau'n seiliedig ar sgiliau, ac yr oedd didoredd a dilyniant yn sicrhau trosiant effeithiol. |
| The National Exemplar Framework for RE includes:<br>• legal information including guidance on spiritual, moral, social and cultural aspects.<br>• guidance on the Foundation Phase<br>• programmes of study for KS2 and KS3.<br>• skills relate directly to the subject<br>• engage – explore – express are interconnected with each other. | Yr oedd y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG yn cynnwys:<br>• gwybodaeth gyfreithiol, gan gynnwys arweiniad ynglŷn ag agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.<br>• arweiniad ynglŷn â'r Cyfnod Sylfaen<br>• rhaglenni astudio ar gyfer CA2 a CA3.<br>• sgiliau a oedd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r pwnc<br>• yr oedd cydgysylltiad rhwng 'ymgysylltu — ymchwilio — mynegi'. |
| The level descriptors are easy to follow as they relate directly to the skills.<br>The document follows on what is in Learning Pathways and ensures, enrichment, flexibility, accreditation, relevance, lifelong learning and cross cutting themes. | Yr oedd y disgrifwyr lefelau'n hawdd eu dilyn, gan fod ganddynt berthynas uniongyrchol â'r sgiliau.<br>Yr oedd y ddogfen yn dilyn o'r hyn a geid yn y Llwybrau Dysgu, ac yr oedd yn sicrhau cyfoethogiad, hyblygrwydd, achrediad, perthnasedd, dysgu gydol oes, a themâu trawsbynciol. |
| The Chair thanked Mrs Morris for her obvious enthusiasm for the subject and her desire that RE is relevant and makes a difference to the lives of pupils and how they think. He spoke of us being part of 'a momentous time' and reminded members that the end of the consultation period was very close. Some SACREs had already discussed and formulated their response and he hoped to hear that DELLS had received more responses for | Diolchodd y Cadeirydd i Mrs. Morris am ei brwdfrydedd amlwg dros y pwnc, a'i dymuniad i AG fod yn berthnasol a gwneud gwahaniaeth i fywydau disgyblion a'r ffordd yr oeddynt yn meddwl. Dywedodd ein bod yn rhan o 'gyfnod tyngedfennol', ac atgoffodd yr aelodau fod diwedd y cyfnod ymgynghori'n agos iawn. Yr oedd rhai CYSAG'au eisoes wedi trafod a llunio'u hymateb, ac yr oedd yn gobeithio clywed bod AADGOS wedi |

| | |
|---|---|
| RE than any other subject! | derbyn mwy o ymatebion ynglŷn ag AG nag ar gyfer unrhyw bwnc arall! |
| The Chair spoke of the time to be set aside in the agenda for members to discuss the consultation document to enable a WASACRE response to be formulated. | Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr amser a oedd i'w neilltuo yn yr agenda ar gyfer trafodaeth ymysg yr aelodau ynglŷn â'r ddogfen ymgynghori, er mwyn ei gwneud yn bosibl i ymateb gael ei lunio ar ran CCYSAGC. |
| The Chair divided members into small discussion groups and a copy of the consultation questions paper was given to each group. A subgroup of the Executive consisting of The Chair, Mr.H.Evans and Mr.R.Thomas will meet to collate the response. | Rhannwyd yr aelodau'n grwpiau trafod bychain gan y Cadeirydd, a rhoddwyd copi o'r papur cwestiynau ymgynghori i bob grŵp. Byddai is-grŵp o'r Pwyllgor Gwaith, a oedd yn cynnwys y Cadeirydd, Mr. H. Evans a Mr. R. Thomas, yn cyfarfod i grynhoi'r ymatebion. |
| Mr.R.Thomas commented that some of the Welsh translation did not always include the same nuances as the English version and that would need to be addressed. Mrs.M.Parry commented that there were some errors in the Welsh translation in KS3.<br>The Chair will write on behalf of WASACRE about translation matters as it is important that parallelism of meaning is in both languages. | Gwnaeth Mr. R. Thomas y sylw fod y cyfieithiad Cymraeg yn methu â chyfleu'r un arlliwiau â'r fersiwn Saesneg mewn mannau, ac y byddai angen mynd i'r afael â hynny. Gwnaeth Mrs. M. Parry'r sylw fod rhai gwallau yn y cyfieithiad Cymraeg yn CA3.<br>Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran CCYSAGC ynglŷn â materion cyfieithu, gan ei bod yn bwysig sicrhau cyfochredd ystyr yn y ddwy iaith. |
| Revd Eldon Phillips asked for clarification from the Chair re. discussions with Mr.John Valentine Williams. The Chair outlined his and the Vice Chair's understanding of the outcomes of the discussion:<br>• the statements regarding RE within the Early Years reflects the latest understanding of the legal interpretation of the law. There is a statutory requirement to provide RE '*to all pupils registered at a school*' and this does not apply to children of nursery age.<br>• The Foundation Phase could not include specific RE within it given the above interpretation of the law: although general beliefs and | Gofynnodd y Parch. Eldon Phillips am eglurhad gan y Cadeirydd ynglŷn â'r trafodaethau gyda Mr. John Valentine Williams. Amlinellodd y Cadeirydd ei ddealltwriaeth ef a'r Is-Gadeirydd o ddeilliannau'r drafodaeth:<br>• yr oedd y datganiadau ynglŷn ag AG yn y Blynyddoedd Cynnar yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth ddiweddaraf o'r dehongliad cyfreithiol o'r gyfraith. Yr oedd gofyniad statudol i ddarparu AG '*i'r holl ddisgyblion sydd wedi eu cofrestru mewn ysgol*', ac nid oedd hyn yn berthnasol i blant oed meithrin.<br>• Nid allai'r Cyfnod Sylfaen gynnwys AG benodol, o gofio'r dehongliad uchod o'r gyfraith, er bod credoau a gwerthoedd |

| | |
|---|---|
| values and other aspects of personal and social development etc. obviously are included. RE is a basic Curriculum subject, so as such cannot be included in National Curriculum Orders. | cyffredinol, ac agweddau eraill ar ddatblygiad personol a chymdeithasol etc., yn cael eu cynnwys. Yr oedd AG yn bwnc sylfaenol yn y Cwricwlwm, ac fel y cyfryw ni ellid ei chynnwys yng Ngorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| o As a result, the 'People Beliefs and Questions' section of the Knowledge and Understanding of the World Area of Learning were re-worded to reflect the legal interpretation and included in the RE Framework. Reference is currently made in the introduction to the Foundation Phase Document to the statutory nature of RE for 5 – 7 yr olds, and to the need for teachers in the Foundation Phase to refer to the local Agreed Syllabus too. This cross referencing could well be increased. | o O ganlyniad, yr oedd yr adran 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ym Maes Dysgu 'Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd' wedi cael ei haileirio i adlewyrchu'r dehongliad cyfreithiol, ac wedi ei chynnwys yn y Fframwaith AG. Ar hyn o bryd yr oedd cyfeiriad yn cael ei wneud, yn y cyflwyniad i Ddogfen y Cyfnod Sylfaen, at natur statudol AG ar gyfer plant 5–7 oed, ac at yr angen i athrawon yn y Cyfnod Sylfaen gyfeirio at y Maes Llafur Cytûn lleol hefyd. Fe all y croesgyfeirio hwn gael ei gynyddu. |
| o Given the interpretation of the law, the placing of the People Beliefs and Questions in the RE Framework helps secure provision for RE throughout. The reference to pupils aged 3 – 4, and those aged 5 – 7 is specifically to address the legal issue, as is the reference to "non-statutory entitlement" for the former. There is no other way that this could be done. | o O ystyried y dehongliad o'r gyfraith, yr oedd gosod 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' yn y Fframwaith AG yn helpu i sicrhau darpariaeth ar gyfer AG drwyddo draw. Pwrpas y cyfeiriad at ddisgyblion 3–4 oed a 5–7 oed oedd mynd i'r afael yn benodol â'r mater cyfreithiol; yr un oedd pwrpas y cyfeiriad at "hawl anstatudol" ar gyfer plant 3–4. Nid oedd unrhyw ffordd arall y gellid gwneud hyn. |
| o DELLS would consider suggestions that greater cross referencing to the National Exemplar Framework for RE and Agreed Syllabuses in the Foundation Phase Framework be made. This would be relatively easy to do, as well as ensuring not only recognition of the legal issues, but also ensuring that Foundation Phase teachers appropriately include the RE elements into their planning from the start. | o Byddai AADGOS yn ystyried awgrymiadau y dylid gwneud mwy o groesgyfeirio at y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG a'r Meysydd Llafur Cytûn yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Byddai hyn yn gymharol hawdd ei wneud, yn ogystal â sicrhau nid yn unig gydnabyddiaeth o'r ystyriaethau cyfreithiol ond hefyd bod athrawon y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys yr elfennau AG mewn modd priodol yn eu cynllunio o'r cychwyn. |
| | o Fe allai herio'r dehongliad |

- Challenging the legal issue may in the end be counter productive, and may reduce the good things currently in place. At present, we have a firm framework and structure for RE from age 3 to 19, and if that is appropriately cross-referenced in Curriculum Guidelines, promoted locally through Agreed Syllabuses, and supported nationally through WASACRE and NAPFRE, then RE is likely to be in a strong position.

The groups met to discuss and record their comments and the papers were collected for collation.

The Chair thanked everyone for their hard work and advised that a letter would be sent to each SACRE with a copy of the collated WASACRE response. He spoke of the unique opportunity for the 22 SACREs to produce guidance and resources that could be shared, and suggested that the WASACRE Executive with NAPfRE find a way of co-ordinating the work undertaken for maximum benefit for all SACREs.

Mr.R.Thomas spoke of the importance of the DELLS Exemplar material being available to feed into the working groups. The Chair responded that WASACRE had already contacted DELLS to request involvement in the dissemination of the new Framework into the Authorities. Mr.Roger Palmer has acknowledged that RE is different to the other subjects and that he is looking to publishing as soon as possible. Mr.Thomas enquired if it were possible to ascertain from SACREs whether they would be adopting the Framework as their Agreed Syllabus. Ms.V.Thomas commented that adaptation had to come first and some SACRE working groups will not meet until September. Mrs.M.Parry said there was a general agreement among the advisers to

cyfreithiolfod yn wrthgynhyrchiol yn y pen draw, a gallai wanhau'r pethau da a oedd yn eu lle ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, yr oedd gennym fframwaith a strwythur cadarn ar gyfer AG rhwng 3 a 19 oed; a phe bai hwnnw'n cael ei groesgyfeirio'n briodol yn y Canllawiau Cwricwlwm, a'i hybu'n lleol drwy'r Meysydd Llafur Cytûn, ac yn cael ei gefnogi ar lefel genedlaethol drwy CCYSAGC a NAPfRE, yna yr oedd AG yn debygol o fod mewn sefyllfa gref.

Cyfarfu'r grwpiau i gynnal trafodaeth a chofnodi eu sylwadau, a chasglwyd y papurau er mwyn eu crynhoi.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu gwaith caled, a dywedodd y byddai llythyr yn cael ei anfon at bob CYSAG gyda chopi o ymateb crynodedig CCYSAGC. Soniodd am y cyfle unigryw i'r 22 CYSAG gynhyrchu cyfarwyddyd ac adnoddau y gellid eu rhannu, ac awgrymodd y dylai Pwyllgor Gwaith CCYSAGC a NAPfRE ganfod ffordd i gydlynu'r gwaith a oedd wedi ei wneud, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i GYSAG'au.

Siaradodd Mr. R. Thomas am bwysigrwydd sicrhau bod deunydd Enghreifftiol AADGOS ar gael i'w fwydo i'r gweithgorau. Ymatebodd y Cadeirydd fod CCYSAGC eisoes wedi cysylltu ag AADGOS i ofyn am gael bod yn rhan o'r broses o ledaenu'r Fframwaith newydd i'r Awdurdodau. Yr oedd Mr. Roger Palmer wedi cydnabod bod AG yn wahanol i'r pynciau eraill, a'i fod yn ymorol am gyhoeddi cyn gynted ag y byddai modd. Gofynnodd Mr. Thomas a oedd yn bosibl canfod gan GYSAG'au a fyddent yn mabwysiadu'r Fframwaith fel eu Maes Llafur Cytûn. Gwnaeth Ms. V. Thomas y sylw fod yn rhaid ei addasu'n gyntaf, ac na fyddai rhai gweithgorau CYSAG yn cyfarfod tan fis Medi. Dywedodd Mrs. M. Parry fod yna gytundeb cyffredinol ymysg yr ymgynghorwyr i gydweithio i gyflawni

work together to achieve a common aim. Mrs.S.Harris suggested that WASACRE adopt in principle without discussing timescales. Proposed by Cllr.M.Gray and seconded by Ms.V.Thomas.

The members retired for lunch.

**8. Report from the Executive Committee**

**Constitution**- suggested amendments had been circulated to all SACREs for a decision at the AGM

**Post 16 issues** – 'the right of withdrawal of sixth form pupils from collective worship'. The Chair had written to Elizabeth Taylor seeking clarification.
**Special Conference Report** only three responses so far: Flintshire, Denbighshire and Conwy.

**Meeting with the Minister** - no date will be set until after the May elections

**9. Presentation by Revd.Professor Leslie Francis on 'Learning Styles'**

The Chair thanked Prof.Francis for agreeing to give his presentation at very short notice when the agreed speaker had withdrawn.

Prof Francis apologised that handouts were in English only, the short time scale had not allowed a translation.

Prof Francis referred to the handout booklet 'British Journal of Religious Education' volume 24:1 Autumn 2001 pp41-51.

He quoted :
*'A sample of 634 A-level Religious Studies students completed the Index of Learning Styles (ILS). The data confirm the validity of distinguishing between*

nod cyffredin.
Awgrymodd Mrs. S. Harris y dylai CCYSAGC fabwysiadu mewn egwyddor, heb drafod amserlenni. Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd M. Gray, a eiliwyd gan Ms. V. Thomas.

Aeth yr aelodau am ginio.

**8. Adroddiad gan y Pwyllgor Gwaith**

**Cyfansoddiad** — Yr oedd y diwygiadau a awgrymwyd wedi eu cylchredeg i'r holl CYSAG'au ar gyfer penderfyniad yn y Cyfarfod Blynyddol.
**Materion Ôl-16** — 'Hawl disgyblion chweched dosbarth i gilio Addoli ar y cyd'. Yr oedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Elizabeth Taylor i ymofyn eglurhad.
**Adroddiad ar y Gynhadledd Arbennig** Dim ond tri ymateb oedd wedi dod i law hyd yn hyn: oddi wrth Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chonwy.
**Cyfarfod gyda'r Gweinidog —** ni fyddai dyddiad yn cael ei bennu tan ar ôl etholiadau mis Mai.

**9. Cyflwyniad gan y Parch. Athro Leslie Francis ar 'Arddulliau Dysgu'**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Francis am gytuno i wneud ei gyflwyniad ar rybudd byr iawn wedi i'r siaradwr a gytunwyd dynnu'n ôl.

Ymddiheurodd yr Athro am y ffaith fod y taflenni'n uniaith Saesneg; nid oedd yr amser byr wedi caniatáu trefnu cyfieithiad.

Cyfeiriodd yr Athro Francis at y llyfryn a ddosbarthwyd, 'British Journal of Religious Education', cyfrol 24:1, Hydref 2001, tud. 41–51.

Dyfynnodd y canlynol :
*'A sample of 634 A-level Religious Studies students completed the Index of Learning Styles (ILS). The data confirm the validity of distinguishing between sensing and intuitive learning, between*

*sensing and intuitive learning, between visual and verbal learning, between active and reflective learning, and between sequential and global learning among A-level Religious Studies students, and lead to the refinement of the Revised Index of Learning Styles (RILS). The implications of learning style theory and the assessment of learning style preferences are discussed in respect of A-level Religious Studies teaching.'*

He went on to quote from within the booklet : '*This conclusion goes beyond arguing that good teaching practice is characterised by a variety of pedagogical methods. Rather, the argument maintains that some students may be clearly disadvantaged by teachers who systematically under-employ the pedagogical methods best suited to those students preferred learning styles.'*

Prof Francis explained that he worked as a personality psychologist in other areas of his work – especially psychological type through Myers Briggs. There is a fundamental difference built into people that will affect the way that they learn. Psychological type is deep in each persons make up. It is totally unchangeable, but young people are conditioned to think that certain types are better than others.

Members were asked to write their signature and share with their neighbour, they were then asked to signify if they were left handed. 10% of members were left handed, we were all asked to write with our other hand, and all found it very difficult. Jung is fascinated by physical polarity and how we develop our preference and he says that psychological preference is built in the same way.

Damage comes to an individual when we

*visual and verbal learning, between active and reflective learning, and between sequential and global learning among A-level Religious Studies students, and lead to the refinement of the Revised Index of Learning Styles (RILS). The implications of learning style theory and the assessment of learning style preferences are discussed in respect of A-level Religious Studies teaching.'*

Aeth yn ei flaen i ddyfynnu o'r llyfryn : '*This conclusion goes beyond arguing that good teaching practice is characterised by a variety of pedagogical methods. Rather, the argument maintains that some students may be clearly disadvantaged by teachers who systematically under-employ the pedagogical methods best suited to those students' preferred learning styles.'*

Eglurodd yr Athro Francis ei fod yn gweithio fel seicolegydd personoliaeth mewn meysydd eraill o'i waith — ac yn neilltuol ar fathau o bersonoliaeth, drwy gyfrwng holiaduron Myers Briggs. Yr oedd gwahaniaeth sylfaenol ac annatod rhwng pobl, a oedd yn effeithio ar y modd yr oeddynt yn dysgu. Yr oedd math seicolegol wedi ei wreiddio'n ddwfn yng nghyfansoddiad pob unigolyn. Yr oedd yn gwbl ddigyfnewid, ond yr oedd pobl ifanc wedi eu cyflyru i feddwl bod rhai mathau'n well nag eraill.

Gofynnwyd i'r aelodau ysgrifennu eu llofnod, a'i rannu gyda'r person nesaf atynt. Yna gofynnwyd iddynt nodi a oeddynt yn llawchwith. Yr oedd 10% o'r aelodau'n llawchwith. Gofynnwyd i ni i gyd ysgrifennu gyda'n llaw arall, a bu hyn yn anodd i bawb. Mae gan Jung ddiddordeb mawr mewn polaredd corfforol a sut yr ydym yn datblygu ein dewis; dywed fod dewis seicolegol wedi ei lunio yn yr un modd.

Daw niwed i unigolyn pan ofynnir iddo weithio yn erbyn ei ddewisiadau corfforol

| | |
|---|---|
| are asked to work against our preferred physical and psychological preferences. | a seicolegol |
| Prof Francis outlined the four pairs of psychological types and explained that learning styles are related to which characteristic each individual has. | Amlinellodd yr Athro Francis y pedwar pâr o fath seicolegol, ac eglurodd fod arddulliau dysgu'n gysylltiedig â pha nodwedd sydd gan bob unigolyn. |
| Members were asked to complete the Myers Briggs questionnaire. (Prof Francis will produce a short report on the learning style of this particular group of individuals). | Gofynnwyd i'r aelodau gwblhau holiadur Myers Briggs (bydd yr Athro Francis yn llunio adroddiad byr ar arddull dysgu'r grŵp hwn o unigolion). |
| He spoke of some of the characteristics of each type.<br>**Introvert** – likes quiet and concentration; may prefer to learn by reading; prefers to communicate by writing first; has trouble remembering peoples names; can work for a long time on a project by themselves; think before they act. | Siaradodd am rai o nodweddion pob un o'r mathau seicolegol.<br>**Mewnblyg** — maent yn hoffi tawelwch a chanolbwyntio; efallai ei fod yn well ganddynt ddysgu drwy ddarllen; mae'n well ganddynt gyfathrebu drwy ysgrifennu'n gyntaf; maent yn cael anhawster i gofio enwau pobl; gallant weithio ar brosiect ar eu pennau'u hunain am gyfnod maith; maent yn meddwl cyn gweithredu. |
| **Extrovert** – likes variety and action; are often good at introducing people; like to learn a new task by talking it through; like to have others around in the working environment; sometimes impatient with slow jobs; may prefer to communicate by talking rather than writing; often act quickly without thinking | **Allblyg**— maent yn hoffi amrywiaeth a gweithrediad; yn aml, maent yn rhai da am gyflwyno pobl; maent yn hoffi dysgu tasg newydd drwy siarad amdani gam wrth gam; maent yn hoffi cael pobl eraill o'u cwmpas yn yr amgylchedd gweithio; weithiau maent yn ddiamynedd gyda thasgau araf; efallai fod yn well ganddynt gyfathrebu drwy siarad yn hytrach nag ysgrifennu; yn aml byddant yn gweithredu'n gyflym heb feddwl. |
| Many introvert teachers reward introverts and vive versa. | Mae llawer o athrawon mewnblyg yn gwobrwyo plant mewnblyg, ac i'r gwrthwyneb. |
| **The perceiving process** – information gathering<br>**Intuitive** – able to dream and create; are aware of new challenges and possibilities; focus on how things can improve; dislike doing the same thing repeatedly; enjoy learning new skills; work in burst of energy with slack time in between; follow hunches; may leap to conclusions too | **Y broses deall** — casglu gwybodaeth<br>**Sythweledol** — maent yn gallu breuddwydio a chreu; maent yn ymwybodol o heriau a phosibiliadau newydd; maent yn canolbwyntio ar sut y gall pethau wella; maent yn casáu gwneud yr un peth drosodd a throsodd; maent yn mwynhau dysgu sgiliau newydd; Maent yn gweithio mewn |

| | |
|---|---|
| quickly; tend to prefer the grand overview. | hyrddiau o egni gydag amser llac rhyngddynt; maent yn mynd ar drywydd syniadau sythweledol; maent yn gallu neidio i gasgliadau'n rhy gyflym; maent yn tueddu i ffafrio'r trosolwg mawr. |
| **Sensing** – careful about the facts; like an established way of doing things; applying what they have learned; may oversimplify a task; focus on what works now; are not often inspired. | **Synhwyro —** maent yn ofalus ynglŷn â'r ffeithiau; maent yn hoffi'r dull sefydledig o wneud pethau; maent yn cymhwyso'r hyn y maent wedi ei ddysgu; maent yn gallu gorsymleiddio tasg; maent yn canolbwyntio ar beth sy'n gweithio ar hyn o bryd; nid ydynt yn ysbrydoledig yn aml. |
| Jung says there are two primary processes – perceiving and judging displayed by thinking and feeling characteristics. Overall females tend to prefer feeling and males prefer thinking. | Mae Jung yn dweud bod yna ddwy broses sylfaenol — deall a barnu — a'u bod yn cael eu hamlygu mewn nodweddion meddwl a theimlo. Yn gyffredinol, mae'n well gan fenywod deimlo ac mae'n well gan wrywod feddwl. |
| **Thinking** – prefer things in a logical order; tend to be firm and tough minded; look at life from the outside. | **Meddwl** — mae'n well ganddynt gael pethau mewn trefn resymegol; maent yn tueddu i fod yn gadarn ac yn benderfynol; maent yn edrych ar fywyd o'r tu allan. |
| **Feeling** – prefer harmony and will make it happen; enjoy pleasing people; tend to be sympathetic; good at seeing implications of decisions; look at life from the inside. | **Teimlo**— mae'n well ganddynt gytgord, a byddant yn sicrhau bod hynny'n cael ei gyflawni; maent yn mwynhau plesio pobl; maent yn tueddu i fod yn gydymdeimladol; maent yn rhai da am weld goblygiadau penderfyniadau; maent yn edrych ar fywyd o'r tu mewn. |
| Attitude towards the outside world is determined by Judging and Perceiving.<br>**Judging** – schedule projects so they are done on time; work with agendas; work best when they can plan; like to get things finished | Mae agwedd tuag at y byd allanol yn cael ei benderfynu gan Farnu a Deall.<br>**Barnu** — maent yn amserlennu prosiectau fel eu bod yn cael eu cwblhau'n brydlon; maent yn gweithio yn ôl agendâu; maent yn gweithio orau pan fydd modd iddynt gynllunio; maent yn hoffi gorffen pethau. |
| **Perceiving** – may have trouble making decisions; may start too many projects; get a lot accomplished best under pressure; are adaptable to changing situations; do not mind last minute changes. | **Deall** — gallant ei chael yn anodd gwneud penderfyniadau; efallai eu bod yn cychwyn gormod o brosiectau; maent yn fwyaf tebygol o gyflawni llawer pan fyddant dan bwysau; maent yn hyblyg yn wyneb sefyllfaoedd newidiol; nid ydynt yn hidio am newidiadau munud olaf. |
| Personality is a 'given' and education | Mae personoliaeth yn beth sylfaenol ac arhosol, a rhaid i addysg barchu |

must respect the diversity of personality and learning preferences.

amrywiaeth personoliaeth a hoffterau dysgu.

The Chair thanked Prof Francis for his fascinating presentation and looks forward to the analysis of this group!

Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Francis am ei gyflwyniad tra diddorol, ac edrychodd ymlaen at dderbyn y dadansoddiad o'r grŵp hwn!

10. <u>A.O.B.</u>

**Membership of the RE Council** – The RE Council is now a registered charity and requires nominated membership for attendance at meetings. Mr.Gavin Craigen and Mrs.Mairwenna Lloyd will represent WASACRE. Items discussed at the last meeting included : RE Council draft document on Teacher Training and Professional Development; Report on Diversity and Citizenship; Framework for England. The November meeting will be held in Cardiff.

10. <u>U.F.A.</u>

**Aelodaeth y Cyngor AG** — Bellach yr oedd y Cyngor AG yn elusen gofrestredig, ac yr oedd gofyn enwebu aelodau ar gyfer mynychu cyfarfodydd. Byddai Mr. Gavin Craigen a Mrs. Mairwenna Lloyd yn cynrychioli CCYSAGC. Yr oedd yr eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf yn cynnwys: dogfen ddrafft y Cyngor AG ar Hyfforddi Athrawon a Datblygiad Proffesiynol; Adroddiad ar Amrywiaeth â Dinasyddiaeth; Fframwaith ar gyfer Lloegr. Byddai cyfarfod mis Tachwedd yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd.

**Nomination to Executive** The Secretary confirmed that the names and biographies had been sent to all SACREs for voting at the AGM

**Enwebiadau i'r Pwyllgor Gwaith**
Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd fod yr enwau a'r bywgraffiadau wedi eu hanfon at yr holl GYSAG'au gyda golwg ar bleidleisio yn y Cyfarfod Blynyddol.

Congratulations were extended to the Chair for opening the meeting in Welsh. The Chair thanked all who had taken part in the meeting and to those attending. He also thanked Pembrokeshire for their hospitality and the excellent lunch.

Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Cadeirydd am agor y cyfarfod yn Gymraeg. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd wedi cymryd rhan yn y cyfarfod, ac i bawb a fu'n bresennol. Diolchodd hefyd i Gyngor Sir Penfro am eu croeso ac am y cinio canol dydd rhagorol.

11. <u>**Dates of meetings**</u>
- 28th June at Llandrindod Wells - Powys (AGM)
- 4th December at Ebbw Vale – Blaenau Gwent
- 14th March 2008 at Carmarthen – Carmarthenshire

******members were asked to note the**

11. <u>**Dyddiadau cyfarfodydd**</u>
- 28ain Mehefin yn Llandrindod, Powys (Cyfarfod Blynyddol)
- 4ydd Rhagfyr yng Nglynebwy, Blaenau Gwent
- 14eg Mawrth 2008 yng Nghaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin

******Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r dyddiad newydd ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr.**

| | |
|---|---|
| **change of date for the December meeting.** | |

**Cyngor Sir Dinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 3 July 2007 |
| Eitem ar yr Agenda: | **5 (b)** | Adroddiad: | **Cymdeithas CYSAG Cymru: Materion i'w codi gyda'r Gweinidog** |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Mae Cymdeithas CYSAG Cymru wedi cael cyfarfod blynyddol gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ac wedi codi'r materion a restrwyd.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Trafod materion cyfoes a nodi pynciau posibl i'w codi gyda'r Gweinidog newydd gan Gymdeithas CYSAG Cymru.

*Argymhellion:*

I CYSAG: - Anfon rhestr i Gymdeithas CYSAG Cymru o bynciau posibl i'w codi gyda'r Gweinidog.

I'r AALl: -

**Cofnod o Faterion – Cyflwyniadau i'r Gweinidog oddi wrth CYSAG / PYCAG / SAGC**

Agenda Eitem: 5(b)

| *2002* | *2003* | *2004* | *2005* | *2006* |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cylchlythyr 10/94 | 1. Addysg Grefyddol Statudol mewn dogfennau<br>a) LlCC ac Estyn<br>b) ELWa<br>c) Bagloriaeth Cymru | 1. Y Cyfnod Sylfaenol ac Addysg Grefyddol | 1. Adrodd ar Weithgaredd y Gymdeithas | 1. Adrodd ar Weithgaredd y Gymdeithas |
| 2. Cyflenwad a Hyfforddiant Athrawon | 2. Cefnogi Addysg Grefyddol:<br>a) HCA a HMS<br>b) Cefnogaeth Ymgynghorol<br>c) Rôl CYSAGau<br>d) Adnoddau Cyfrwng Cymraeg | 2. Bagloriaeth Cymru | 2. Addysg Grefyddol a HCA | 2. Deall yr Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes: strwythur, cefnogaeth ar gyfer Addysg Grefyddol, comisiynu defnyddiau, perthynas gyda CYSAG Cymru |
| 3. Adnoddau ar gyfer Addysg Grefyddol | 3. Cylchlythyr 10/94 | 3. Datblygiad Proffesiynol Athrawon | 3. 14 Cyllid ELWa ar gyfer Addysg Grefyddol statudol 14 – 19 ac ôl 16 | 3. Partneriaeth bosibl rhwng yr Adran Addysg a Dysgu Gydol oes a CYSAG Cymru (Tebyg i'r berthynas rhwng yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth a'r Cyngor Addysg Grefyddol) |
| 4. Cefnogaeth Gyffredinol ar gyfer Addysg Grefyddol:<br>a) Cefnogaeth Ymgynghorol<br>b) Cyllidebau CYSAG | 4. Symposiwm Llanidloes | 4. Ymateb i'r Symposiwm | 4. Llwybrau Amgen a CA3 mewn Archwiliad | 4. Dyfodol CYSAGau o gofio am y galw am ragor o gydweithrediad, efallai ailstrwythuro Awdurdodau Unedol |
| 4. Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol Ôl 16 | | | 5. Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Fframwaith Datblygiad Proffesiynol | |

**Cyngor Sir Dinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 3 July 2007 |
|---|---|---|---|
| Eitem ar yr Agenda: | **6** | Adroddiad: | **Datblygiad Ysbrydol yn y Cwricwlwm** |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Gofynnodd CYSAG Conwy i'w AALI benodi gweithgor i baratoi dogfen sy'n cynnig cyngor ar Ddatblygiad Ysbrydol ar draws y cwricwlwm.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Mae AALI Conwy wedi cytuno i Sir Ddinbych gopïo'r ddogfen a'i dosbarthu i ysgolion. Mae cais wedi'i wneud gan yr Arolygydd/ Ymgynghorydd AALI Sir Ddinbych i'r posibilrwydd hwn gael ei ystyried, pe bai aelodau CYSAG yn cytuno byddai'n werth i'w ysgolion ei gael.

*Argymhellion:*

I CYSAG: - Derbyn yr adroddiad. Gofyn i'r AALI sicrhau bod copïau o'r ddogfen ar gael i'w holl ysgolion/athrawon gyda llythyr yn atgoffa ysgolion o'u gofynion statudol i ddarparu cyfleoedd er datblygiad ysbrydol eu holl ddisgyblion ar draws y cwricwlwm.

I'r AALI: - Cytuno i roi copïau o'r ddogfen i bob ysgol/athro ac i gynnwys llythyr yn atgoffa ysgolion o'u gofynion statudol o ran datblygiad ysbrydol yng nghwricwlwm yr ysgol.

Agenda Eitem: 6

# Mewn Ysbryd Da!

## Datblygiad Ysbrydol yn yr Ysgol a'r Cwricwlwm

Cynhyrchwyd gan weithgor o athrawon ar gais yr AALl a CYSAG, fel rhan o'r Cynllun Addysg Sengl

Aelodau:

| | |
|---|---|
| Gavin Craigen | Arolygwr/Ymgynghorydd AGr |
| Helen Jones | Ysgol Craig y Don |
| Michelle Moore | Ysgol Iau Hen Golwyn |
| Jenny Roemmele | Ysgol Babanod T. Gwyn Jones |
| Samantha Lewis Jones | Pennaeth Cynorthwyol Ysgol John Bright |


© Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2007

## CYNNWYS


| | *Rhif Tudalen:* |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Rhai Dywediadau | 2 |
| Datblygiad Ysbrydol mewn Cyd-destun Addysgol | 3 – 5 |
| Datblygiad Ysbrydol – diagram (cylch) | 6 |
| Nodweddion Unigolyn sy'n Datblygu'n Ysbrydol | 7 – 9 |
| Datblygiad Ysbrydol – diagram (trionglog) | 10 |
| Strategaethau yn y Dosbarth | 11 – 12 |
| Pynciau ar draws y Cwricwlwm | 13 – 17 |
| Addoli ar y Cyd a Datblygiad Ysbrydol | 18 – 20 |
| Cyfreithiol – 4 Diffiniad | 21 – 22 |
| Meini Prawf Estyn ar gyfer Datblygiad Ysbrydol/Addoli ar y Cyd | 23 |

**Cyflwyniad:**

## Nod y Ddogfen

Fel rhan o'r Cynllun Strategol Addysg, penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gynnwys paratoi cyfarwyddyd ychwanegol i ysgolion ynghylch datblygiad ysbrydol yn yr ysgol a'r cwricwlwm.

Oherwydd hyn, gofynnodd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) am sefydlu gweithgor bach ar draws y cyfnodau i baratoi deunydd cyfarwyddyd a fyddai o gymorth i athrawon.

Cytunodd CYSAG Sir y Fflint a ChYSAG Sir Ddinbych i ariannu argraffu'r llyfryn hefyd ar gyfer eu staff, er mwyn i fwy o athrawon, ysgolion a disgyblion allu manteisio ar y gwaith.

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer yr **holl staff ym mhob ysgol** ac nid yn unig ar gyfer y staff sy'n dysgu Addysg Grefyddol neu'n cynllunio a chyflwyno Addoli ar y Cyd. Mae Datblygiad Ysbrydol, wrth natur, yn rhywbeth y mae pob athro yn cyfrannu ato, trwy bopeth a wnânt.

Mae'r gweithgor a'r CYSAGau yn gobeithio'n fawr y bydd athrawon yn cael y cyfarwyddyd hwn o gymorth ac y bydd yn eu hysgogi wrth iddynt ddal i geisio sicrhau bod ein disgyblion yn cael y profiadau a'r cyfleoedd gorau ac yn datblygu hyd eithaf eu gallu yn ysbrydol, yn foesol, yn ddiwylliannol, yn feddyliol, yn gorfforol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol.

Rhai Dywediadau:

"Mae ein gallu gwyddonol wedi datblygu'n fwy na'n gallu ysbrydol. Mae gennym daflegrau annel a dynion annoeth."
(Martin Luther King y mab)

"Mae ysbrydolrwydd yn debyg i aderyn: os ydych yn ei ddal yn rhy dynn, mae'n tagu; os ydych yn ei ddal yn rhy llac, mae'n hedfan i ffwrdd."
(Rabbi Hugo Gryn)

"Mae addysg yn ymwneud nid yn unig â beth mae disgyblion yn ei wybod ac yn gallu ei wneud, ond hefyd â beth yw pobl a beth allant fod yn y dyfodol."

"Mae pobl yn debyg i ffenestri gwydr lliw. Maen nhw'n disgleirio pan fydd yr haul yn tywynnu ond pan ddaw'r nos, mae angen goleuni mewnol i ddatgelu eu gwir harddwch."
(Elizabeth Kubler Ross)

"Mae ysbrydolrwydd felly yn golygu synfyfyrio, edrych a myfyrio; teimlo, creu a gwerthfawrogi; canfod ystyr, canfod eraill a chanfod ein hunain; ond yn anad dim mae'n golygu bod yn ddynol mewn perthnasoedd."
(Anhysbys)

## Datblygiad Ysbrydol mewn Cyd-destun Addysgol

◊ Pennir y dimensiwn ysbrydol mewn bywyd a dysgu fel y gyntaf o bum agwedd ar fod yn ddynol y dylid eu datblygu trwy broses addysg – ond efallai nad ydym yn darparu ar ei chyfer cystal â'r agweddau meddyliol, deallusol, diwylliannol, corfforol a moesol.

◊ Mae'n allweddol sylwi bod holl broses addysg yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol mewn cyd-destun addysgol ac nid addysg grefyddol yn unig.

◊ Y ddwy 'gainc' cyffredinol sy'n ei ddarparu mewn ysgolion yw:

- Ethos yr ysgol – sy'n cynnwys y rhain i gyd:
    - Naws yr ysgol
    - Ansawdd y perthnasau ynddi
    - Y gwerthoedd a'r agweddau sydd yno
    - Darpariaeth a chyfleoedd allgyrsiol
    - Sut y rheolir argyfwng ac anawsterau
    - Sut y gwerthfawrogir y disgyblion oherwydd pwy a beth ydynt

- Y cwricwlwm a gynllunnir – gan gynnwys:
    - Addysg Grefyddol
    - Addysg Bersonol a Chymdeithasol
    - Y Cwricwlwm Cenedlaethol
    - Addoli ar y Cyd
    - Agweddau eraill ar y cwricwlwm a ddarperir

◊ O wybod am y ddwy 'gainc' gyffredinol hyn yn y ddarpariaeth, efallai fod yr elfennau canlynol o gymorth i ddeall beth yw datblygiad ysbrydol:


- Dechrau deall ein hunain a'n teimladau personol
- Gallu i ddatblygu perthnasau ystyrlon ag eraill a gwybod pam mae hyn yn bwysig
- Gwerthfawrogi'r gwerthoedd a'r agweddau a goleddir gan y gymuned
- Magu ymdeimlad o her, neu weledigaeth neu ysbrydoliaeth
- Gallu i brofi parchedig ofn a rhyfeddod ac ymateb iddynt
- Dod ar draws amrywiol fynegiadau o gred ac ymroddiad ac ymateb i'r rhain
- Gallu a bod yn fodlon cynnal/datblygu ymchwil am y gwir ac am ystyr

- Adnabod lle pethau'r ysbryd mewn dynoliaeth
- Deall pam mae gan bobl ddiddordeb byw yn y cwestiynau mawr am fywyd dynol
- Dod yn ymwybodol o'r cyd-destun eang ar gyfer bywyd ac addysg a dod yn fwyfwy ymwybodol o drosgynoldeb
- Datblygu creadigrwydd yr unigolyn

◊ Dyma hanfodion cyflwr dynolryw ac nid ydym yn eu profi o anghenraid trwy'r synhwyrau corfforol ac ni allwn bob amser eu mynegi trwy iaith bob dydd. Nid ydynt yn gyfyngedig i bobl sy'n arddel crefydd nac i arferion crefyddol. Mae'r elfennau i gyd yn perthyn i'r ymchwil gyffredinol am hunaniaeth, ystyr a phwrpas, ac am werthoedd a chredoau i fyw wrthynt.

◊ Diolchwn i David Smith, a Chanolfan Stapleford am ganiatâd i gynnwys y canlynol o'r llyfr "Making Sense of Spiritual Development":

- Pedair ffenestr i Dwf Ysbrydol:





## Galluoedd Ysbrydol

◊ galluoedd dynol sy'n ein gwneud y math o greaduriaid sy'n gallu tyfu yn ysbrydol;

## Profiadau Ysbrydol

◊ ffyrdd yr ydym yn profi dimensiwn ysbrydol bywyd;






## Dealltwriaeth Ysbrydol

◊ y mathau o bethau y byddai arnom angen eu deall, efallai, er mwyn tyfu'n ysbrydol;


## Ymatebion Ysbrydol

◊ Sut mae twf ysbrydol yn ymddangos yn y ffordd yr ydym yn byw;



- Mae'r llyfr yn dadlau bod angen y pedair 'ffenestr' hyn ar gyfer agwedd gyfannol at dwf a datblygiad ysbrydol.

Agweddau ar Ddatblygiad Ysbrydol



# **Nodweddion Unigolyn sy'n Datblygu'n Ysbrydol**


*(Gweler y diagram ar Dudalen 8)*

## **Adnabod Ein Hunain *ac Ymchwilio i'n Hunain***

- Mae'n dangos hunan-fri a hunan-barch cynyddol
- Mae'n adnabod ei gryfderau a'i wendidau ei hunan
- Mae'n myfyrio ar ei deimladau dirgel a'i gredoau
- Mae'n derbyn cyfrifoldeb cynyddol drosto ei hunan
- Mae'n dangos hunan-werth cynyddol
- Mae'n gwybod ei bod yn bwysig dweud y gwir
- Mae'n ymdrechu i fod yn ffyddlon iddo ei hunan ac i ddatblygu uniondeb

## **Empathi ac Emosiynau**

- Mae'n dathlu llwyddiant ac yn ymdopi â methiant
- Mae'n empatheiddio â gwerthoedd, teimladau, emosiynau a chredoau pobl eraill ac yn deall y gallai'r rhain fod yn wahanol i'w rai ei hunan
- Mae'n cael ei gynhyrfu gan brofiadau fel cariad, harddwch, daioni, llawenydd, tosturi, anghyfiawnder, drygioni, dioddefaint a marwolaeth
- Mae'n gwerthfawrogi ac yn parchu pobl eraill, a safbwyntiau a allai fod yn wahanol
- Mae ganddo ymwybyddiaeth gynyddol o pa bryd mae'n bwysig rheoli emosiynau, *e.e. dicter, rhagfarn, cenfigen, ayb.*



Heriol
Maddeugar
Yn dderbyn
Cydymdeimladol
Dychmyglawn
Chwilfrydig/Ymchwilgar
Realistig
Parod i ymddiried
Nodweddion unigolyn sy'n datblygu'n ysbrydol
Cyfrifol
Myfyrgar
Parod i dderbyn
Teyrngar
Parchus
Goddefgar
Gofalgar
Geirwir
Creadigol
Hunan-ymwybodol

**Cymuned**

- Mae’n cydnabod gwerth pob unigolyn a’r cyfraniadau y mae’n gallu eu gwneud
- Mae ganddo agwedd barchus, ofalgar tuag at bobl eraill, y gymuned a’r amgylchedd
- Mae’n datblygu perthnasau ystyrlon ag eraill
- Mewn cymuned grefyddol, mae’n datblygu dealltwriaeth am Dduw neu berthynas â Duw

**Credoau**

- Mae’n datblygu credoau personol
- Mae’n datblygu dealltwriaeth am gredoau pobl eraill


**Creadigrwydd**

- Mae’n mynegi ei feddyliau a’i deimladau mwyaf dirgel ac yn gwerthfawrogi creadigrwydd pobl eraill
- Mae’r byd naturiol yn ei ysbrydoli a’i gynhyrfu
- Mae’n gallu defnyddio a sianelu ei ddychymyg

**Dirgelwch**

- Mae’n datblygu chwilfrydedd ac ymdeimlad y gall rhywbeth ‘mwy’ nag ef ei hun fodoli
- Mae’n rhyfeddu at ogoniant y cread
- Mae’n chwilio am ystyr a phwrpas
- Mae’n gofyn y cwestiynau mawr am fywyd

## DATBLYGIAD YSBRYDOL YN Y CWRICWLWM




Mae'n hanfodol cloriannu i ba raddau y mae ysgol yn darparu ar gyfer datblygiad ysbrydol ac yn ei hyrwyddo os yw'r ysgol am gyflawni'r gofynion sydd arni i ddarparu'r Cwricwlwm Sylfaenol.

Mae gan Addysg Grefyddol rôl benodol a phwysig wrth ddarparu ar gyfer datblygiad ysbrydol, ond **ethos yr ysgol gyfan**, yr **holl gwricwlwm**, a'r **gwerthoedd a'r syniadau** a nodir ac a roddir ar waith yng nghymuned yr ysgol fydd naill ai'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol neu'n ei atal rhag ffynnu.

Mae'r diagram uchod yn dangos rhai o'r ffyrdd – mewn unrhyw faes cwricwlaidd neu agwedd ar fywyd yr ysgol – sy'n gallu agor y ffenestri i ddatblygiad ysbrydol.

**Strategaethau yn y dosbarth sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol ar draws y cwricwlwm cyfan.**

- Cael profiad o amrywiol ddulliau addysgu llawn dychymyg a chreadigol sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gweithredol ac sy'n cynyddu diddordeb;

- Teimlo cyffro ynghylch ennill gwybodaeth;

- Datblygu meddyliau chwilfrydig sy'n gofyn 'pam', 'sut', 'beth fyddai'n digwydd pe bai'?;

- Gweithio ar dasgau penagored a all ennyn amrywiol ymatebion;

- Datblygu hyder trwy dderbyn cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain, rhannu gwybodaeth trwy drafodaeth, ceisio cymorth wrth ddirnad syniadau;

- Cael profiad o'r cyffro o ddeall ar ôl ymgodymu â phroblem;

*Graphic note:*
*If this and next page could be a double page spread, with bullets arranged around the pages (i.e. not in straight columns), with some graphic images to reflect some of the points they address, that would be great.*

- Ymchwilio i werthoedd ac agweddau gyda materion cymhleth;

- Datblygu’r  gallu i gydweithio ag eraill, gan wrando ar eu syniadau a’u trin â pharch;

- Cael profiad o barchedig ofn a diddordeb byw trwy chwarae rôl, arteffactau, ffilmiau a rhaglenni dogfen a thrwy brofiadau uniongyrchol ac ymweliadau;

- Cael profiad o amserau tawel ar gyfer myfyrdod a llonyddwch;

- Ehangu eu gorwelion, datblygu empathi, agweddau a gwerthoedd cadarnhaol tuag at bobl eraill trwy gyfarfod ag ymwelwyr o lefydd eraill;

- Datblygu ymdeimlad o bwrpas trwy berfformio gyda grŵp, ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at gyd-berfformwyr, ymdeimlad corfforaethol o berthyn a chael profiad o fod yn rhan o rywbeth sy’n fwy na nhw eu hunain;

- Datblygu hunan-werth a hunan-fri trwy fynegiad personol;

- Dathlu a chanmol llwyddiant pobl eraill;

- Herio camsyniadau a stereoteipiau trwy gydnabod bod gan bobl anghenion cyffredin ac anghenion gwahanol;

- Cael profiad o ddosbarth democrataidd lle caiff barn pawb ei gwerthfawrogi a’i pharchu.

# Pynciau'r Cwricwlwm

**Mathemateg** Graphics appropriate to subject

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- gydnabod a rhyfeddu at harddwch cynlluniau, cymesuredd, y cysyniad o anfeidredd, ayb.;
- myfyrio ar y sicrwydd mewn mathemateg a'i natur resymegol;
- profi cyffro wrth ddeall ar ôl ymgodymu â phroblem rifiadol.

**Daearyddiaeth** Graphics appropriate to subject

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- fyfyrio a rhyfeddu at yr amrywiaeth o bobl, lleoedd ac amgylcheddau ar draws y byd;
- adnabod perthnasau a phatrymau e.e. cysylltiadau rhwng dynolryw a'r amgylchedd a'r ffordd y mae'r naill yn dylanwadu ar y llall;
- datblygu dealltwriaeth a syniadau am stiwardiaeth, gan ymroi i hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o fyw trwy ymchwilio i faterion amgylcheddol;
- gwerthfawrogi rhyfeddodau'r byd naturiol a ffenomenau fel llosgfynyddoedd, corwyntoedd, ayb.

Graphics appropriate to subject

**Hanes**

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- werthfawrogi'r rhan a chwaraeir gan hanes teuluol a hanes lleol i greu'r hyn ydym ni;
- gwerthfawrogi sut mae hanes a datblygiad Cymru yn effeithio ar ein hymwybod o hunaniaeth;
- cydnabod a gwerthfawrogi effaith yr etifeddiaeth Gristnogol ar ddiwylliant Prydain;
- gwerthfawrogi pethau nawr trwy ddeall sut roeddynt yn y gorffennol.

**Cerddoriaeth**

Graphics appropriate to subject

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- deimlo rhyfeddod a pharchedig ofn wrth wrando ar waith sy'n dangos mor greadigol yw pobl;
- ymchwilio i'w hymateb eu hunain a rhannu eu hymateb emosiynol a phersonol i amrywiaeth o gerddoriaeth;
- gwerthfawrogi cyfoeth traddodiadau cerddorol gwahanol ar draws y byd;
- gwerthfawrogi'r gwerthoedd ysbrydol mewn cerddoriaeth, gan gynnwys yr ymdeimlad o'u colli eu hunain mewn cerddoriaeth.

**Celf**

Graphics appropriate to subject

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- deimlo rhyfeddod a pharchedig ofn wrth weld gwaith sy'n dangos mor greadigol yw pobl;
- mynegi ac ymchwilio i'w hymateb eu hunain i gelf, a defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i fynegi eu teimladau a'u hemosiynau eu hunain;
- gwerthfawrogi sut y defnyddir lliw, symbolau, arddull, ayb., i gyfleu ystyr meddyliau a theimladau anodd neu rai na ellid eu mynegi fel arall;
- gwerthfawrogi cyfoeth traddodiadau celfyddydol gwahanol ar draws y byd;
- gwerthfawrogi'r gwerthoedd ysbrydol mewn celf.

**TGCh**

Graphics appropriate to subject

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- gydnabod a rhyfeddu at ryfeddodau technoleg;
- gwerthfawrogi cyflwyniadau, rhaglenni a gwaith o safon uchel a geir gyda chymorth technoleg;
- cysylltu ag eraill a'u syniadau, eu profiadau, eu cyflawniadau a'u pryderon trwy ddefnyddio technoleg;
- dadlau ynghylch defnyddio a chamddefnyddio technoleg fodern.

**Ieithoedd Tramor Modern**

*Graphics appropriate to subject*

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- werthfawrogi cyfathrebu ag eraill yn eu hiaith eu hunain;
- cydnabod gwerthoedd, credoau, ffyrdd o fyw ac arferion pobl eraill;
- cloriannu eu diwylliant, eu syniadau a'u harferion eu hunain.

**Addysg Gorfforol**

*Graphics appropriate to subject*

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- ddatblygu ymdeimlad o falchder wrth wneud eu gorau, dyfalbarhau doed a ddelo a gwerthfawrogi chwarae teg;
- rhyfeddu at alluoedd y corff dynol;
- gwerthfawrogi'r cyffro a'r pleser sydd mewn gweithgareddau corfforol;
- cymryd rhan mewn digwyddiadau egnïol er mwyn adnabod y gwerth, yr ymdeimlad o gyflawni a'r bartneriaeth a geir o ganlyniad.

**Gwyddoniaeth**

*Graphics appropriate to subject*

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- brofi ymdeimlad o barchedig ofn a rhyfeddod a myfyrio ar y byd lle maent yn byw;
- profi cyffro darganfyddiad gwyddonol;
- deall sut mae organebau gwahanol yn ddibynnol ar ei gilydd;
- sylweddoli sut mae datblygiadau gwyddonol wedi effeithio ar eu bywydau a'r byd o'u cwmpas;
- sylweddoli y gall eu gweithredoedd gael effaith ar yr amgylchedd.

**Dylunio a Thechnoleg**

Graphics appropriate to subject

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- werthfawrogi eu sgiliau eu hunain a'u gallu i wneud pethau a gwerthfawrogi beth mae pobl eraill wedi'i wneud;
- mynegi eu hunaniaeth yn y pethau a wnânt;
- gwerthfawrogi defnyddiau – lliw, gwead, siâp, arogl, cyffyrddiad, tarddiad;
- dylunio gan gadw anghenion pobl eraill mewn cof;
- gwneud penderfyniadau ynghylch defnyddioldeb, harddwch, cost-effeithiolrwydd.

Graphics appropriate to subject

**Saesneg**

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- werthfawrogi acenion a thafodieithoedd a chael profiad o amrywiaeth ddiwylliannol;
- magu hunan-hyder trwy ddefnyddio'r llais mewn amrywiol ffyrdd;
- cael profiad o fwynhau darllen, gan gynnwys amrywiaeth o straeon sy'n mynd â nhw tu hwnt i'r byd bob dydd;
- datblygu geirfa i fynegi eu meddyliau a'u teimladau mwyaf dirgel.

Graphics appropriate to subject

**Cymraeg**

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- werthfawrogi cyfathrebu yn eu mamiaith â phobl eraill;
- gwerthfawrogi bod angen deall a chyfathrebu â phobl sydd â Chymraeg neu Saesneg fel mamiaith;
- adnabod a gwerthfawrogi credoau, ffyrdd o fyw ac arferion Cymru a'r iaith Gymraeg;
- cloriannu eu diwylliant, eu syniadau a'u harferion eu hunain.

## Addysg Grefyddol

*Graphics appropriate to subject*

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- ymgodymu â'r cwestiynau sylfaenol am ystyr bywyd, marwolaeth a phwrpas bodolaeth;
- ymchwilio i gredoau, dysgeidiaeth ac arferion crefyddol sy'n ymwneud â chwestiynau o'r fath a'u profiadau eu hunain;
- ennill y sgiliau a'r eirfa i fynegi ymateb a dealltwriaeth bersonol;
- empatheiddio â phrofiadau pobl eraill a gwneud cysylltiadau â'u gwerthoedd a'u credoau eu hunain;
- datblygu ac aeddfedu'n ysbrydol, gan gynnwys trwy gael cyfle i ymchwilio a chloriannu agweddau ar ddatblygiad ysbrydol a geir ar draws y cwricwlwm.

## Agweddau Eraill o'r Ddarpariaeth Gwricwlaidd

### Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

*Graphics appropriate to subject*

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- sylweddoli pwysigrwydd datblygu cynaliadwy a rhoi gwerth ar ystyriaethau perthnasol i hynny;
- cloriannu eu ffyrdd eu hunain o fyw a chynllunio ar gyfer gweithredu yn nhermau datblygu cynaliadwy a materion amgylcheddol;
- sylweddoli a gwerthfawrogi sut mae cymdeithasau'n gweithio ar wahanol raddfeydd o'r lleol i'r byd-eang, a dechrau deall grymuso ac eithrio pobl;
- ystyried a chloriannu goblygiadau materion byd-eang a'n hawliau a'n cyfrifoldebau fel dinasyddion y byd.

### Addysg Bersonol a Chymdeithasol

*Graphics appropriate to subject*

Dylai'r disgyblion gael cyfle i:

- ystyried a myfyrio ar agweddau ac ymddygiad cadarnhaol tuag at bobl eraill, y gymuned a'r amgylchedd;
- eu paratoi eu hunain at her, dewisiadau a chyfrifoldebau addysg, gwaith, cyflogaeth a dysgu gydol oes;
- rannu profiadau, yn rhai cadarnhaol a rhai heriol;
- tyfu yn eu dealltwriaeth am sut i fyw bywyd iach a boddhaus.

## Cyfraniad Addoli ar y Cyd i Ddatblygiad Ysbrydol Disgyblion

Mae Addoli ar y Cyd yn fodd allweddol o ddatblygu ysbrydolrwydd trwy'r ysgol.  Fodd bynnag, un elfen yn unig yw addoli ar y cyd o agwedd ysgol gyfan at ysbrydolrwydd, a ddylai redeg ar draws y cwricwlwm a chynnwys pob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Bydd credoau crefyddol yn dylanwadu'n gryf ar sut mae rhai disgyblion yn ymateb i'r materion sy'n codi ond gall y rhai sy'n anghredinwyr ddatblygu'n ysbrydol hefyd.  Nid yw ysbrydolrwydd yn gyfystyr â bod yn grefyddol.

**Dylai addoli ar y cyd ddarparu amser arbennig ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol.**
A roddir cyfle i'r disgyblion i:
- gael profiad o lonyddwch a myfyrio;
- gwrando, pendroni a myfyrio trwy weddi, myfyrdod a distawrwydd?

**Dylai Addoli ar y Cyd fod yn ddisgybl ganolog gan ddechrau o brofiadau'r disgyblion er mwyn eu galluogi i ddatblygu ymdeimlad o'u safle o fewn y darlun cyfan.**
A roddir cyfle i'r disgyblion i:
- rannu beth sy'n bwysig iddynt;
- ystyried a myfyrio ar amrywiaeth o sefyllfaoedd a materion o bwys ac ymateb yn bersonol?

**Dylai Addoli ar y Cyd gynnig mewnwelediad i gredoau ac arferion crefyddol.**
A roddir cyfle i'r disgyblion i:
- ddatblygu eu dealltwriaeth o Gristnogaeth a chrefyddau eraill y byd;
- ymchwilio i'w credoau eu hunain a chredoau pobl eraill a rhannu'r rhain;
- ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng credoau a gwerthoedd;
- ystyried perthnasedd credoau i'w bywydau eu hunain;
- gwerthfawrogi pwysigrwydd credoau crefyddol i'r rhai sy'n eu harddel?

**Dylai Addoli ar y Cyd helpu'r disgyblion i ddatblygu'r gallu i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain.**
A roddir cyfle i'r disgyblion i:
- ymchwilio i emosiynau, gwahaniaethau a fframweithiau gwerthoedd personol trwy themâu fel dewrder, cariad, cyflawniad, tosturi, anghyfiawnder, dioddefaint, marwolaeth, trasiedi, gobaith, cyfrifoldeb ac ymdrechion dyngarol?

**Parchedig ofn, rhyfeddod, trosgynoldeb**

A roddir cyfle i'r disgyblion:

- 'weld' bod rhywbeth, rhywun tu hwnt?

**Addoli**

A roddir cyfle i'r disgyblion:

- gael profiad o weddi
- myfyrio
- ystyried?

**Dathlu**

A roddir cyfle i'r disgyblion ddathlu

- beth sy'n bwysig mewn bywyd
- cyfraniadau a llwyddiannau pobl?

**Naws**

- Dylai greu'r cyfle i ymchwilio / mynegi / teimlo'r ysbrydol a bod yn
- gadarnhaol
- ystyriol
- llawen!

## Awgrymiadau ar gyfer Datblygiad Ysbrydol mewn Addoli ar y Cyd

**Cwestiynau**

Dylai:

- ofyn cwestiynau rhethregol, adfyfyriol
- arwain at drafodaeth a syniadau

**Gobaith a Gweledigaeth**

A roddir cyfle i'r disgyblion:

- edrych tu hwnt i'r dibwys neu'r bydol
- dyrchafu a dyheu?

**Canolbwynt**

- Arteffact
- Cannwyll
- Cerddoriaeth
- Drama
- Stori
- Unigolyn

**Wynebu Anawsterau**

A roddir cyfle i'r disgyblion:

- sylweddoli bod adegau anodd ac anawsterau mewn bywyd

**Dylai Addoli ar y Cyd ddatblygu ymwybyddiaeth o'r bywyd mewnol a'r dimensiwn ysbrydol i bob unigolyn**

A roddir cyfle i'r disgyblion:

- sylweddoli bod mwy i fywyd na'r cyffredin;
- datblygu ymdeimlad o'i safle o fewn y darlun cynhwysfawr;
- gwerthfawrogi ymdeimlad o'r trosgynnol;
- ffurfio athroniaeth bersonol neu safbwynt bywyd, sy'n hybu hunan-hyder ac ymdeimlad o bwrpas?

**Dylai Addoli ar y Cyd ymchwilio i'r cwestiynau mawr ynghylch ystyr bywyd, newid a marwolaeth ac ymateb i'r rhain.**

A roddir cyfle i'r disgyblion:

- ddatblygu ymdeimlad o ddirgeleddau bywyd;
- ymchwilio i ymatebion crefyddol a phersonol i gwestiynau anodd ynghylch bywyd;
- ymateb i gwestiynau mawr megis y rhai sy'n ymdrin â dioddefaint, marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth?

**Dylai Addoli ar y Cyd ymchwilio i agweddau ar fywyd sydd ag ystyr arbennig a chyfrannu at ymdeimlad o barchedig ofn, rhyfeddod a chreadigrwydd**

A roddir cyfle i'r disgyblion:

- werthfawrogi llawenydd a rhyfeddodau'r byd;
- ymateb i amrywiaeth o ysgogiadau sy'n apelio i'r holl synhwyrau?

**Dylai Addoli ar y Cyd ymchwilio i Ysbrydolrwydd Cyfunol ac ymateb iddo.**

A roddir cyfle i'r disgyblion i:

- ddatblygu ymdeimlad o berthyn i gymuned gynhwysol;
- cadarnhau a dathlu'r gwerthoedd a rennir a'r ethos cyffredin yng nghymuned yr ysgol mewn profiad arwyddocaol a gwerthfawr;
- meithrin awyrgylch lle mae pobl yn parchu'i gilydd?

## Gwahaniaethau Cyfreithiol

Mae llawer o gamddealltwriaeth ynghylch y derminoleg a'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd ac mae'n bwysig bod yn glir ynghylch y gwahaniaethau isod:

### 1. Addoli ar y Cyd ac Addysg Grefyddol (AGr)

Dyma ddwy agwedd wahanol ar ddarpariaeth yr ysgol ac mae gofynion cyfreithiol gwahanol yn berthnasol iddynt. Mae'r amser ar gyfer AGr yn cael ei gynnwys yng nghyfanswm amser y cwricwlwm ar gyfer ysgol ond nid yw addoli ar y cyd yn rhan o 'ddiwrnod y cwricwlwm' – yn hytrach, mae'n rhan o ddarpariaeth ac ethos yr ysgol gyfan.

Mae'n bosibl, wrth reswm, bod perthynas werthfawr yn bodoli sy'n cysylltu AGr ac addoli ar y cyd, yn enwedig mewn ysgolion cynradd – ond mae'r ddau hefyd yn gwneud cyfraniadau gwahanol ar wahân i'r rhyngweithio hwnnw.

Mae'n ddoeth felly bod â pholisïau ar wahân ar gyfer AGr ac addoli ar y cyd a chadw ffeiliau a chofnodion gwahanol ar gyfer y ddau faes hyn ym mywyd yr ysgol.

### 2. Addoli ar y Cyd a Chynulliad Ysgol

Er bod llawer o ysgolion ac athrawon a disgyblion hefyd yn sôn am gynulliad ysgol neu'r 'gwasanaeth' wrth sôn am yr amser pan fydd yr ysgol neu'r dosbarth yn dod ynghyd i addoli, nid dyma'r term cyfreithiol ar gyfer cyfnod addoli ar y cyd.

Yn wir, yn ôl y gyfraith unrhyw adeg y mae'r ysgol yn ymgynnull, <u>heblaw ar gyfer addoli ar y cyd</u> yw'r 'gwasanaeth' dan sylw.

Ceir gofyniad statudol i gynnal gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd; nid oes gofyniad deddfwriaethol i ysgolion ymgynnull.

Mae'r hawl i dynnu plant allan yn berthnasol i weithredoedd o addoli ar y cyd ond nid i gynulliad ysgol.

Mae gan y term 'gweithred o addoli ar y cyd' oblygiadau o ran arferion a threfniadau ac nid oes gan y term 'cynulliad ysgol' na 'gwasanaeth' oblygiadau o'r fath.

### 3. Addoli ar y cyd a chydaddoli

Mae'r math o addoli sy'n digwydd mewn ysgolion yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd yng nghyd-destun cymuned ffydd. I gydnabod hyn, mae'r ddeddfwriaeth yn defnyddio'r term ***'addoli ar y cyd'*** ***('collective worship')*** yn hytrach na'r term ***'cydaddoli'*** ('***corporate worship')***.

*Addoli ar y cyd yw:*

Y math o addoli y mae'n ofynnol i ysgol ei ddarparu, sy'n gyson ag amcanion addysgol ac yn grŵp 'ar y cyd' – h.y.
pobl â gwahanol gredoau ac ymroddiadau crefyddol neu hebddynt.

*Cydaddoli yw:*

Y math o addoli sy'n digwydd o fewn corff 'corpus' o gredinwyr; mae aelodau'r gymuned yn cyfarfod yn wirfoddol ac yn rhannu agweddau ar ymroddiad a chred.

### 4. Addoli ar y cyd yn y dosbarth ac o dan arweiniad dosbarth

Mae llawer o ysgolion yn cyfeirio at 'wasanaethau dosbarth' a gall y term hwn olygu pethau gwahanol. Mae'n bwysig bod yn glir, felly:

- Fod addoli ar y cyd yn y dosbarth yn golygu gweithred lle mae dosbarth unigol yn cymryd rhan, yn eu hystafell eu hunain mae'n debyg neu yn rhywle arall ond yn dal i fod ar eu pennau eu hunain fel dosbarth.

- Fod addoli ar y cyd dan arweiniad dosbarth yn golygu gweithred lle mae dosbarth penodol yn arwain, neu'n cymryd rôl arweiniol, mewn gweithred sy'n cynnwys dosbarthiadau eraill yn yr ysgol.

### Meini Prawf Estyn – ar gyfer Datblygiad Ysbrydol ac Addoli ar y Cyd

"Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygiad ysbrydol yn dibynnu ar gwricwlwm a dulliau addysgu sy'n ymgorffori gwerthoedd eglur. Dylai gynnig cyfleoedd i ddisgyblion feithrin dealltwriaeth trwy ddatblygu ymdeimlad o chwilfrydedd, wrth iddynt ystyried eu bywydau a'u credoau eu hunain ac eraill, eu hamgylchedd a'r cyflwr dynol. Mae'n dibynnu ar athrawon yn derbyn ac yn gwerthfawrogi syniadau disgyblion ar draws y cwricwlwm cyfan. Gall addoli ar y cyd chwarae rhan bwysig.

Nid oes yn rhaid i ddatblygiad ysbrydol gynnwys unrhyw gyswllt crefyddol, ond mewn nifer o ysgolion, bydd addysg grefyddol yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad ysbrydol.

Gallech, er enghraifft, ystyried a anogir disgyblion i:

- ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd a sut y gall addysgu crefyddol ddelio â nhw;
- ymateb i gwestiynau o'r fath gan gyfeirio at addysgu ac arferion crefyddau yn ogystal â'u profiadau a'u safbwyntiau eu hunain; ac
- ystyried eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain yng ngoleuni'r hyn y maent yn ei astudio mewn addysg grefyddol."

Ac ar gyfer addoli ar y cyd:
"Dylech ystyried pob math o addoli ar y cyd yn ôl ei haeddiant ac yn ei gyd-destun ei hun. Dylech farnu'r gweithgareddau a arsylwyd yn ystod yr arolygiad, ynghyd â'r hyn a ddigwyddodd, a'r hyn a gynllunnir, dros dymor.

Dylai addoli ar y cyd:

- fod yn briodol i oedran, datblygiad a chefndir y disgyblion;
- amrywio o ran cynnwys;
- herio disgyblion a chyfoethogi eu profiad;
- cael ei gynnal mewn lleoliad priodol; a
- rhoi cyfle i ddisgyblion gyfranogi mewn cynllunio, cyflwyno a / neu ymateb yn briodol.

Dylech farnu a yw mwyafrif achlysuron addoli ar y cyd natur Gristnogol yn gyffredinol dros gyfnod o amser. Dylai'r ysgol feddu ar gyfnod o'r themâu a'r cynnwys. Os nad yw'r hyn a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â natur y gyfraith, dylech nodi hyn yn yr adroddiad a rhoi rheswm (rhesymau) dros wneud hyn. Efallai y byddwch yn barnu nad yw'r addoliad yn bodloni gofynion statudol, ond gallech farnu o hyd ei fod yn gwneud cyfraniad effeithiol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Os felly, dylech gyfleu hyn yn eglur yn yr adroddiad."

(Tudalennau 59-60 Arweiniad ar Arolygu Ysgolion)